# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SAFONAU | | STANDARDS COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 28 MEHEFIN 2022<br>am 2.00 o'r gloch | | TUESDAY, 28 JUNE 2022<br>at 2.00 pm |
| CYFARFOD RHITHWIR<br>WEDI EI FFRYDIO'N FYW | | VIRTUAL LIVE STREAMED<br>MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs Shirley Cooke<br>01248 752514 | Committee Officer |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Dr Thomas Rhys Davies (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
Mrs Celyn Menai Edwards
Mr John Robert Jones (Cadeirydd/Chair)
Mrs Gill Murgatroyd
Mrs Sharon Warnes

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Trefor Lloyd Hughes MBE
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

*Sedd wag/vacant seat x 2*

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021.

**3** **HYFFORDDIANT AELODAU ETHOLEDIG** (Tudalennau 7 - 18)

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar ddatblygu a hyfforddi Aelodau.

**4** **CWYNION AR YMDDYGIAD A GYFEIRWYD AT OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 19 - 24)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas ag (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref/Cymuned ar gyfer Chwarter 3 a 4 o 2021//22.

**5** **PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 25 - 48)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar benderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021.

**6** **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 49 - 76)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**7** **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 77 - 80)

I ystyried Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau am 2022/23.

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol** |
| | Mr John R Jones (Cadeirydd)<br>Dr Thomas Rhys Davies (Is-gadeirydd)<br>Mrs Celyn Menai Edwards<br>Mrs Gill Murgatroyd<br>Mrs Sharon Warnes |
| | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Y Cynghorydd J Arwel Roberts |
| | **Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Y Cynghorydd Iorwerth Roberts<br>Y Cynghorydd Keith Roberts |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Dros Dro<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd Mrs Celyn Edwards ddiddordeb personol yn Eitem 5 (adran 2.3) ar y rhaglen, oherwydd ei chysylltiad agos ag Aelodau a staff y Cyngor Sir yn rhinwedd ei swydd.

### 2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021 yn gywir, yn amodol ar y canlynol -

**Materion yn codi o gofnodion 15 Mehefin 2021**

- Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith na chynhwyswyd cofnod o weithredoedd wedi'i ddiweddaru gyda phapurau cyfarfod heddiw, yn groes i'r hyn a gytunwyd yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD y byddai'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro yn nodi'r cais mewn perthynas â chyfarfodydd yn y dyfodol.**

- Eitem 4 – Mewn perthynas ag Adroddiadau Blynyddol Aelodau, cadarnhawyd nad yw'r Cod Ymddygiad wedi cael ei newid er mwyn caniatáu cais y Pwyllgor Safonau i wneud Adroddiadau Blynyddol Aelodau yn statudol.
- Eitem 6 – Nodwyd bod yr Ombwdsmon yn ystyried bod ymyrraeth gan y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro yn ddigon i ddatrys anghydfodau ac nid yw'n cymryd camau pellach. Dywedodd y Cadeirydd y bydd cyfle i'r Pwyllgor Safonau drafod y mater hwn ymhellach wrth ystyried adroddiad Mr Richard Penn a chanlyniad adolygiad Llywodraeth Cymru. Nodwyd y byddai ymyrraeth yn digwydd cyn datrysiad lleol, er mwyn lliniaru unrhyw faterion cyn iddynt droi'n gwynion.
- Eitem 9 – Nodwyd y bydd y Cadeirydd a'r Pwyllgor Safonau'n cynnal cyfarfod anffurfiol yn y dyfodol i adolygu Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor, cyn ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Cyngor Sir.

**Materion yn codi o Gofnodion y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2021**

Gofynnwyd a ddefnyddiwyd unrhyw ganiatâd arbennig hyd yn hyn. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro fod rhai aelodau o'r Pwyllgor Gwaith wedi datgan diddordeb mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 13 Rhagfyr 2021 a'u bod wedi datgan eu bod wedi derbyn caniatâd arbennig i drafod eitem ar y rhaglen.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r caniatâd arbennig a roddwyd, a'r sail a'r amgylchiadau dros ei roi.**
- **Bod cofnodion drafft cyfarfod y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2021 wedi cael eu cadarnhau fel rhai cywir gan aelodau'r Panel yn unig (John R Jones, Rhys Davies a Gill Murgatroyd).**

## 3 DATBLYGU A HYFFORDDI AELODAU

Ni chyflwynwyd adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro na fydd Arweinyddion Grwpiau'n rhoi ystyriaeth bellach i hyfforddiant nad yw'n orfodol cyn diwedd tymor presennol y Cyngor hwn. Nodwyd bod adnoddau'n cael eu defnyddio i baratoi rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer y Cyngor newydd, yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022. Cyflwynwyd cynnig y dylid cynnwys pynciau a argymhellwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor hwn yn y rhaglen hyfforddi.

**PENDERFYNWYD y byddai'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro yn anfon cynigion y Pwyllgor at y Tîm Datblygu AD i'w cynnwys yn y Rhaglen Datblygu a Hyfforddi nesaf ar gyfer Aelodau.**

**Gweithredu: Dim**

## 4 ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiadau Blynyddol Aelodau ar gyfer y cyfnod 2020/21.

Mae dyletswydd ar y Cyngor Sir i sicrhau bod trefniadau ar waith i aelodau gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar-lein.

Er nad oes rhaid i Aelodau gyflwyno adroddiadau blynyddol ar eu gweithgareddau, nodwyd bod Arweinyddion Grwpiau'n annog Aelodau i wneud hynny.

Nodwyd bod 14 Aelod wedi cyflwyno adroddiadau ar gyfer y cyfnod 2020/21, a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2022.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Gweithredu: Dim**

## 5 CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn cynnwys diweddariad chwarterol ar gwynion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon mewn perthynas ag (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorau Tref a Chymuned.

Nodwyd mai dim ond un gŵyn oedd yn erbyn Cynghorydd Sir a bod y gweddill yn erbyn Cynghorwyr Tref a Chymuned.

Mynegwyd pryder ynghylch paragraff 3.1 yr adroddiad, yn gofyn i'r Pwyllgor Safonau nodi tueddiadau sy'n cael eu hamlygu. Roedd y Pwyllgor Safonau o'r farn, oherwydd bod yr adroddiad yn un dienw, na fyddai'n bosib nodi unrhyw dueddiadau na chamau unioni ar hyn o bryd. Roedd y Pwyllgor yn teimlo y byddai'n rhaid iddynt edrych ar wybodaeth ychwanegol ynghylch natur y cwynion cyn y gallent ymateb.

Cynigiodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor Safonau'n cyfarfod yn anffurfiol yn y Flwyddyn Newydd i edrych ar y cwynion dienw mewn mwy o fanylder, a phenderfynu a ellir nodi unrhyw dueddiadau. Awgrymwyd bod y Pwyllgor yn edrych ar achosion blaenorol hefyd, er mwyn canfod am ba reswm y mae'r Ombwdsmon yn ystyried bod angen ymchwilio i achosion.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro nad oes unrhyw dueddiadau arwyddocaol yn cael eu nodi yn yr adroddiad hwn a fyddai'n peri pryder a dywedodd y byddai'n hapus i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Pwyllgor Safonau'n nodi cynnwys Atodiadau 1 i 4 yn yr adroddiad.**
- **Bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro**

**Dros Dro yn dosbarthu Atodiadau 1 i 4 i'r Cynghorau Tref a Chymuned, Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig y Cyngor yn y Newyddlenni.**

- **Bod cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau'n cael ei gynnal yn y Flwyddyn Newydd i drafod tueddiadau sy'n codi o'r adroddiad, a chofnodion blaenorol y Pwyllgor Safonau.**

**Gweithredu: Gweler y penderfyniad uchod.**

## 6 PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn cynnwys crynodeb o'r penderfyniadau a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 16 Mehefin 2021.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Dros Dro at y pwyntiau dysgu o'r achos tribiwnlys cyntaf, a dywedodd mai'r Swyddog Monitro sydd â dyletswydd statudol i sicrhau bod diddordebau'n cael eu cofnodi'n gywir, ac nid y Pwyllgor Safonau fel y nodir yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro at y pwyntiau dysgu yn yr ail achos tribiwnlys. Tynnodd sylw at y gwahaniaeth rhwng bwlio ac aflonyddu, a dywedodd bod angen cyfres o ddigwyddiadau i aflonyddu ar rywun, tra gallai un digwyddiad fod yn ddigon yn achos bwlio. Nodwyd bod canllawiau'r Ombwdsmon yn nodi'r gwahaniaeth yn glir.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro y byddai disgwyl fel arfer, mewn achos o aflonyddu, i'r achwynydd ddioddef wrth i'r digwyddiad gymryd lle. Yn yr achos hwn, dywedodd nad oedd yr achwynydd yn ymwybodol bod y Cynghorydd wedi ymddwyn yn y ffordd y gwnaeth o a'i fod wedi gwneud cwyn amdani ar ran trydydd parti tan dair wythnos yn ddiweddarach. Nodwyd bob modd aflonyddu ar rywun ex post facto.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y crynodebau achos.**

**Gweithredu: Dim**

## 7 CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG

Trafodwyd a derbyniwyd cofnodion y Panel Caniatâd Arbennig o dan Eitem 2 uchod.

**Gweithredu: Dim**

## 8 YMATEBION GAN GYNGHORAU TREF A CHYMUNED I NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad ynglŷn â'r uchod gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

Ar 21 Gorffennaf 2021, gofynnodd y Pwyllgor Safonau i Glercod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau, a gofynnwyd iddynt anfon copi o’r rhaglen/cofnodion at y Pwyllgor hwn yn cadarnhau eu bod wedi trafod y Newyddlen yn eu cyfarfodydd. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro mai dim ond 5 o’r 40 Cyngor Tref a Chymuned sydd wedi ymateb i’r cais.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar a ddylai’r Pwyllgor Safonau gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â’r Cynghorau Tref a Chymuned sydd heb ymateb.

Cytunwyd y byddai pum aelod y Pwyllgor Safonau a gynhaliodd yr adolygiadau gyda Chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned yn cysylltu â Chlercod y Cynghorau hynny er mwyn cynnal trafodaeth anffurfiol ar sut y gallai’r Pwyllgor Safonau gefnogi a rhannu arfer dda gyda’r Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn gwella’r berthynas yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi’r wybodaeth a gyflwynwyd yn ymatebion y Cynghorau Tref a Chymuned yn Atodiad 2, a**
- **Bod pum aelod y Pwyllgor Safonau a gynhaliodd yr adolygiadau yn cysylltu â’r 5 Cyngor Tref a Chymuned i gynnal trafodaeth anffurfiol i ganfod sut y gall y Pwyllgor hwn gynorthwyo’r Cynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol.**

**Gweithredu: Gweler y penderfyniad uchod.**

**9 ADRAN 62-63 DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar newidiadau i’r Fframwaith Moesegol statudol a gyflwynir gan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro ddiweddariad ar y newidiadau sydd ar y gorwel mewn perthynas ag Adrannau 62 a 63 y Ddeddf. Bydd Arweinyddion Grwpiau’n gyfrifol am hyrwyddo a chynnal safon uchel o ymddygiad aelodau eu grŵp o fis Mai 2022, a bydd y Pwyllgor Safonau’n goruchwylio hynny.

Nodwyd bod awdurdodau lleol yn disgwyl am Ganllawiau gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cael eu gweithredu’n raddol o fis Mai 2022 i 2023. Bydd angen adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau o ganlyniad i’r newidiadau.

**PENDERFYNWYD y dylai’r Pwyllgor Safonau adolygu ei Gylch Gorchwyl a’i fframwaith monitro er mwyn cryfhau’r ddyletswydd newydd ar Arweinyddion Grwpiau ar ôl cyhoeddi Canllawiau Llywodraeth Cymru.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.**

## 10 FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL

Cyflwynwyd – adroddiad diweddaru gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar yr adolygiad o’r Fframwaith Safonau Moesegol. Sefydlwyd y Fframwaith i hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad moesegol gan Aelodau wrth gyflawni busnes y Cyngor.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro bod y Pwyllgor Safonau wedi ystyried argymhellion Llywodraeth Cymru ym mharagraff 6 yr adroddiad, a’i fod wedi anfon ymateb ffurfiol at Mr Richard Penn yn nodi sylwadau’r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â’r ymgynghoriad.

Mynegwyd pryderon am y bwriad i wneud mwy o ddefnydd o Ddatrysiad Lleol. Roedd y Pwyllgor Safonau’n teimlo os rhoddir pwerau ychwanegol iddynt ddatrys materion lleol, yna bydd angen mwy o adnoddau ar y Pwyllgor i ddelio â’r cynnydd yn y llwyth gwaith. Nodwyd y byddai mwy o bwysau ar Glercod Cynghorau Tref a Chymuned, Swyddogion Monitro a staff.

Awgrymwyd bod y Pwyllgor Safonau’n achub y blaen ar effaith y newidiadau ar Gynghorau Tref a Chymuned trwy gysylltu’n rheolaidd â Chlercod o’r cychwyn gan ddarparu diweddariadau rheolaidd trwy gyfrwng y Newyddlen.

**PENDERFYNWYD nodi’r adroddiad, gyda’r disgwyliad yr ymgynghorir â’r Pwyllgor Safonau ar unrhyw newidiadau i’r Fframwaith Safonau Moesegol, pryd a phan fyddant yn cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru, a’r disgwyliad y byddant mewn grym ac yn weithredol erbyn 5 Mai 2022.**

**Gweithredu: Dim**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 pm

**MR JOHN R JONES**
**CADEIRYDD**

| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | 28ain MEHEFIN 2022 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | HYFFORDDIANT AELODAU ETHOLEDIG |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | MIRIAM WILLIAMS (estyniad 2512) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I ROI DIWEDDARIAD O RAGLEN ANWYTHO AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG YN DILYN YR ETHOLIAD MIS MAI 2022 |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad yma ydi rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Safonau o'r rhaglen Anwytho gyflwynwyd i Aelodau Etholedig yn dilyn yr etholiadau lleol mis Mai 2022.

Mae Cwricwlwm Fframwaith Anwytho ar gyfer Ymgeiswyr ac Aelodau Newydd yng Nghymru wedi ei llunio gan CLlLC, ac yn gosod allan awgrymiadau o beth ddylid ei cynnwys mewn rhaglenni lleol ar gyfer cefnogi Aelodau Etholedig.

Mae'r fframwaith yma yn sail i'r rhaglen sydd wedi ei llunio a'i datblygu ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

## 2. Y CYNLLUN

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf o'r Bwletin Anwytho i Aelodau Etholedig fel y gwelir yn Atodiad 1. I hwyluso mynediad i'r ddogfen, mae fersiwn electroneg wedi ei chynnwys o fewn Dangosfwrdd Aelodau Etholedig o fewn y Platfform E-Ddysgu, Cronfa Dysgu.

Mae'r cynllun yn amlygu'r prif fannau blaenoriaeth sydd wedi ei hadnabod ar gyfer y cyfnod anwytho, hyd at mis Mehefin 2022. Bydd y ddogfen yma'n naturiol yn esblygu oherwydd dylanwad allanol/mewnol; newid blaenoriaethau a deddfwriaeth gyda'r bwriad maes o law o lunio rhifyn arall o'r Bwletin Anwytho er mwyn cyfarch y cyfnod Gorffennaf i Hydref 2022.

Rhwng y 11eg o Fai a'r 30ain Mehefin mae 23 diwrnod hyfforddiant wedi ei cynnig, gydag sesiynau e.e. Croeso'r Prif Weithredwr; Sesiynau Technoleg

Gwybodaeth; Cyflwyniad Gwasanaeth Plant, yn cynnig hyblygrwydd o ran dewis dyddiadau/amseroedd I fynychu.

Yn gyffredinol ma'r niferoedd sydd wedi manteisio ar y cyfleoedd yma wedi bod yn galonogol. Mae'r data yn parhau i gael ei gasglu/fewnbynnu i sicrhau fod cofnodion yn gywir ac ystyried os fydd angen ail gynnal rhai sesiynau.

**3. FFURF TROSGLWYDDO**

Ar nodyn cyffredinol, dros y 2 flynedd diwethaf, nid ydi ffurf traddodiadol o drosglwyddo hyfforddiant wedi bod yn opsiwn, fodd bynnag wrth adolygu/codi cyfyngiadau Cofid, ac fel mae'r Awdurdod yn dychwelyd i weithio'n fwy hybrid, rhagwelir bydd hyfforddiant hefyd yn datblygu'n hybrid.

Bydd trosglwyddo sesiynau hyfforddiant/briffio yn parhau i gymeryd lle drwy gyfryngau fel MSTeams/Zoom; defnydd o blatfform E-Ddysgu'r Awdurdod ac hefyd lle'n ymarferol bosib, drwy sesiynau wyneb i wyneb.

Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i pryd fydd sesiynau'n cael ei cynnal, gan gymeryd i ystyriaeth ymrwymiadau gwaith/gofal a.y.y.b., felly lle bynnag yn bosibl ac yn ymarferol, byddwn yn ceisio cynnig opsiynau o ddyddiadau/amseroedd i Aelodau.

Yn ogystal, mi fyddwn yn ffactora gweithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth/cyflwyno gan arbennigwyr mewnol ar gyfer y cynllun 2022/2023 er mwyn sicrhau deunydd gorau o adnoddau ac i sicrhau fod gwerth am arian yn digwydd.

**4. I GRYNHOI**

Wrth dderbyn mewnbwn pellach gan rhanddeiliaid mi fydd y cynllun datblygu yn cae ei adolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod cynlluniau'n ymateb i'r angen a'r Hyfforddiant yn cael ei gyflwyno'n amserol.

**5. ARGYMHELLIAD**

- I nodi cynnwys y cynllun a chynnig atborth briodol

**Miriam Williams**
**Rheolwr Hyfforddiant AD**
**Mehefin 2022**

Atodiad 1

# Bwletin Anwytho Aelodau

## Rhif 2 – Rhaglen Anwytho a Hyfforddiant

## Mai – Mehefin 2022



www.ynysmon.llyw.cymru

www.anglesey.gov.wales

Eich Ffordd Ymlaen
Your Way Forward
Cefnogi Eich Dyfodol – Supporting Your Future

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Rhaglen Anwytho a Hyfforddiant Gorffennaf 2022 ymlaen i ddilyn.

## RHAGLEN ANWYTHO A HYFFORDDIANT MAI – MEHEFIN 2022

| Pryd? | Teitl | Pwnc/ Maes Gwaith | Cyfrwng | Yn berthnasol i: | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| YCHYDIG DDYDDIAU CYNTAF | **MATERION YMARFEROL** | • Cymorth TGCh/derbyn offer<br>• Cerdyn adnabod a llun | Wyneb yn wyneb (Pencadlys y Cyngor)<br>Swyddogion | Holl Aelodau Etholedig | **11/5/2022 & 12/5/2022**<br>**Opsiynol** |
| | **SEIBR DDIOGELWCH** | Deall egwyddorion a chyfrifoldebau personol ynghylch materion Seiberddiogelwch | Cyflwyniad ar-lein drwy fideo | | |
| | **RÔL YR AELOD ETHOLEDIG** | Cyflwyniad i'r rôl ac i lywodraeth leol | Gwefan CLlLC https://www.wlga.cymru/member-development-and-support sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau ar gyfer Aelodau Etholedig | | |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **CROESO I'R AWDURDOD** | Cyflwyniad i Gyngor Sir Ynys Môn; Darparu trosolwg o Weledigaeth yr Awdurdod | Cyflwyniad – yn rhithiol/ wyneb yn wyneb<br><br>Prif Weithredwr | Holl Aelodau Etholedig | **16/5/2022<br>&<br>17/5/2022** |
| Tudalen 12 | **MATERION CYLLID** | Trosolwg o faterion cyllidol | Cyflwyniad (yn rhithiol/ wyneb yn wyneb).<br><br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) & Swyddog 151 / | Holl Aelodau Etholedig | **2yp – 3yp<br><br>19/5/2022** |
| | **COD YMDDYGIAD A MOESEG** | Trosolwg o drefniadau Democrataidd - h.y. mewnbwn mewn cyfarfodydd; rheolau a rheolau sefydlog ayyb. | Cyflwyniad (yn rhithiol/ wyneb yn wyneb).<br><br>Swyddog Monitro | Holl Aelodau Etholedig | **10yb – 12yp<br><br>20/5/2022** |
| | **CYFLWYNIAD I WASANAETHAU'R AWDURDOD** | Trosolwg o gyfrifoldebau'r Gwasanaeth a chyfle i Aelodau Etholedig ofyn cwestiynau | Cyflwyniadau - (rhithiol/wyneb yn wyneb)<br><br>Cyfarwyddwr/ Penaethiaid Gwasanaethau / Swyddogion | Holl Aelodau Etholedig | |
| | | | **Gwasanaethau Cymdeithasol – Oedolion<br>&<br>Addysg** | | **4.30yp – 6.30yp<br>23/5/2022** |
| | | | **Cyllid** | | **4.30yp – 6.30yp** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **&<br>Tai** | | **24/5/2022** |
| | | **Trawsnewid Corfforaethol<br>&<br>Rheoleiddio** | | **4.30yp – 6.30yp<br>25/5/2022** |
| | | **Priffyrdd/Eiddo/Gwastraff<br>&<br>Busnes y Cyngor** | | **4.30yp – 6.30yp<br><br>26/5/2022** |
| | | **Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant** | | **5.30yp – 6.30yp<br>8/6/2022<br>NEU<br>9yb – 10yb<br>9/6/2022** |
| | | | | |
| **CYFANSODDIAD** | Rhoi dealltwriaeth o’r disgwyliadau ar Aelodau Etholedig | Cyflwyniad – (rhithiol/ wyneb yn wyneb)<br><br><br>Swyddog Monitro | Holl Aelodau Etholedig | **10yb – 12yp<br><br>27/5/2022** |
| **SESIYNAU SGILIAU TECHNOLEG GWYBODAETH** | Cynorthwyo Aelodau Etholedig i ymgyfarwyddo gydag wahanol sustemau TG sydd ar gael | Cyflwyniad – (wyneb yn wyneb)<br><br><br>Swyddogion | Holl Aelodau Etholedig | **9.30yb – 3.30yp<br><br><br>26/5/2022<br>&<br>27/5/2022** |
| **DELIO GYDA DATA/ GWYBODAETH BERSONOL FEL** | Deall rhwymedigaethau cyffredinol GDPR a Deddf Diogelu Data | Modiwl E-Ddysgu | Holl Aelodau Etholedig | **Erbyn 31/5/2022** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AELOD ETHOLEDIG** | 2018; Deall gofynion penodol y Ddeddf; Deall sut i gydymffurfio â'r Ddeddf | | | |
| | | | | |
| **PWYLLGORAU CYNLLUNIO** | Y Broses Gynllunio a rôl y Pwyllgor<br><br>Y Broses Gynllunio - Sesiwn i Aelodau Etholedig gydag eitemau a fydd yn cael eu codi mewn Pwyllgorau yn fuan. | Cyflwyniad – (rhithiol/ wyneb yn wyneb)<br><br>Swyddogion Cynllunio | Aelodau Pwyllgor<br><br>Aelodau Penodol | **Sesiynau 1-1**<br><br>**9.30yb – 4.30yp**<br><br>**06/6/2022**<br>**&**<br>**07/6/2022** |
| **TRWYDDEDU** | Rhoi dealltwriaeth o'r rôl a chyfrifoldebau o'r Pwyllgor Cynllunio | Cyflwyniad – (rhithiol/ wyneb yn wyneb)<br><br>Swyddogion | Aelodau Penodol | **2yp – 4yp**<br><br>**1/6/2022** |
| **PANEL PENODI** | Sesiynau trosolwg i gael dealltwriaeth o rôl Pwyllgorau penodol a chyfrifoldebau Aelodau Etholedig | Cyflwyniad – (rhithiol/ wyneb yn wyneb)<br><br>Swyddogion | Aelodau Penodol | **Unionsyth cyn Pwyllgor Penodi** |
| **SESIYNAU SGILIAU** | Cynorthwyo Aelodau Etholedig i ymgyfarwyddo gydag | Cyflwyniad – (wyneb yn wyneb) | Holl Aelodau Etholedig | **9.30yb – 3.30yp** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 15 | **TECHNOLEG GWYBODAETH** | wahanol sustemau TG sydd ar gael | Swyddogion | | **9/6/2022 & 10/6/2022** |
| | **BETH SY'N GWNEUD CYNGHORYDD DA?** | Deall y rôl ac awgrymiadau ar ddelio â'r etholwyr; cyfathrebu trwy gyfryngau cymdeithasol ac ati. | Modiwl e-ddysgu CLlLC | Holl Aelodau Etholedig | **Opsiynol** |
| | **MATERION ADDYSG** | Cwricwlwm Newydd i Gymru & Strategaeth TGCh Ysgolion | Cyflwyniad – (rhithiol/ wyneb yn wyneb)<br><br>Swyddog/GwE | Holl Aelodau Etholedig | **5.30 yp – 6.30yh**<br><br>**16/06/2022** |
| | | Deddf Newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol | Cyflwyniad – (rhithiol/ wyneb yn wyneb)<br><br>Swyddog | Holl Aelodau Etholedig | **5.30 yp – 6.30 yh**<br><br>**23/06/2022** |
| | | Rol Aelodau Etholedig fel Llywodraethwyr | Cyflwyniad – (rhithiol/ wyneb yn wyneb)<br><br>Swyddog | Holl Aelodau Etholedig | **5.30 yp – 6.30 yh**<br><br>**30/06/2022** |
| | **MATERION DIOGELU - PLANT AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED** | • Cyflwyniad a Throsolwg o rôl yr Aelodau Etholedig | Modiwlau E-Ddysgu | Holl Aelodau Etholedig | **Erbyn 30/6/2022** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Sesiynau diogelu gorfodol–**<br>• Trais Domestig/Trais yn Erbyn Merched<br>• Caethwasiaeth Fodern<br>Atal | | | |
| | | | | | |

## SESIYNAU YCHWANEGOL AR GAEL AR GAIS

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **AR GAIS** | **HYFFORDDIANT TGCH** | Sesiynau Un i Un / Grwp i gynorthwyo gyda offer/meddalwedd TGCh | Wyneb yn Wyneb<br><br>Swyddogion Perthnasol / Darparwyr Allanol | **Ar gael i bob Aelod Etholedig ar gais** | |
| | **ASESIAD GWEITHLE** | Asesiad Gweithle – sicrhau gweithio mewn amgylchedd diogel | Modiwl E-Ddysgu | | |
| | **CYFRYNGAU CYMDEITHASOL** | Meddu ar ddealltwriaeth o sut i wneud i gyfryngau cymdeithasol weithio i Gynghorwyr; beth i'w rannu a beth na ddylid ei rannu; sut i beidio ag ymddwyn ar gyfryngau cymdeithasol; bwlio a diogelwch personol | Cyflwyniad -<br><br>(rhithiol/wyneb yn wyneb)<br><br>Darparwr Allanol | | |

## MODIWLAU E-DDYSGU

**Mae gan Aelodau Etholedig fynediad hyblyg i E-Ddysgu. Gweler isod fanylion y meysydd pwnc presennol sydd ar gael. Bydd modiwlau ychwanegol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno maes o law.**

| Datblygiad Aelodau | Y Gymraeg | Iechyd a Diogelwch |
|---|---|---|
| - Moeseg a Safonau<br>- Cynghorydd Ward Effeithiol<br>- Sgiliau Siarad Cyhoeddus<br>- Cadeirio Cyfarfodydd<br>- Rhianta Corfforaethol<br>- Penderfyniadau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol<br>- Cyflwyniad i Sgriwtini | - Croeso Cymraeg Gwaith<br>- Croeso'n Ôl Cymraeg Gwaith | - Defnydd Diogel o Offer Sgrin Arddangos<br>- Rheoli Iechyd a Diogelwch |
| **Llesiant** | **Gofal Cwsmer a Sgiliau Proffesiynol** | **Technoleg Gwybodaeth** |
| - Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol **(G)**<br>- Cyflwyniad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth<br>- Gwybodaeth am Iechyd<br>- Gwybodaeth am Straen<br>- Gwydnwch Personol<br>- Atal **(G)**<br>- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>- Cynllunio Cyn Ymddeol<br>- Ymywbyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu **(G)**<br>- Caethwasiaeth Fodern **(G)** | - Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) **(G)**<br>- Ysgrifennu Effeithiol<br>- Rheoli eich hun a'ch amser<br>- Cofnodi Effeithiol<br>- Rhoi a Derbyn Adborth<br>- Sgiliau Cyfarfod<br>- Sgiliau Cyflwyno<br>- Deallusrwydd Emosiynol<br>- Hunan Ddatblygu<br>- Llywodraethu Gwybodaeth Gyffredinol | - Ymwybyddiaeth Seibr **(G)** |

**(G) = Gorfodol**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **28 Mehefin 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad a gyfeiriwyd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu'r Pwyllgor am y Cwynion sydd wedi eu hanfon at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Darperir y Pwyllgor Safonau â diweddariad bob chwarter am y cwynion sydd wedi eu derbyn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn pertynas ag (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIADAU

2.1 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 3 mewn perthynas â Chynghorwyr Sir, i'w weld yn **Atodiad 1**.

2.2 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 3 mewn perthynas â Chynghorwyr Tref a Chymuned, i'w weld yn **Atodiad 2**.

2.3 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4, mewn perthynas â Chynghorwyr Sir, i'w weld yn **Atodiad 3**.

2.4 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4, mewn perthynas â Chynghorywr Tref a Chymuned, i'w weld yn **Atodiad 4.**

## 3. PATRYMAU SY'N DATBLYGU

3.1 Mae'n galonogol nodi ei bod yn ymddangos nad oes unrhyw batrymau yn datblygu a bod nifer yr atgyfeiriadau at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi gostwng.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys **Atodiadau 1-4** ac yn ystyried unrhyw dueddiadau sy'n codi (os o gwbwl) ac unrhyw fesurau cywiro a allai fod eu hangen.

4.2 Bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn dosbarthu **Atodiadau 1-4** i'r Cynghorau Tref a Chymuned a'r Aelodaeu Etholedig a Chyfetholedig o'r Cyngor fel rhan o'r Cylchlythyrau.

**ATODIAD / ENCLOSURE 1**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr Medi 2021) – 2021/2022 – Quarter 3 (October – December 2021)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r Cyhoedd/ Member of the Public | (i) 023362<br>(ii) 202103343 | 24.08.2021 | 29.09.2021<br>Ombwdsmon ddim yn ymwchwilio / Ombudsman not investigating |

**ATODIAD / ENCLOSURE 2**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 3 (Hydref - Rhagfyr 2021) – 2021/2022 – Quarter 3 (October – December 2021)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Tref / Town Councillor | Cynghorydd Tref / Town Councillor | (i) 023643<br>(ii) 202103868 | 06.09.2021 | Ymchwiliad yn parhau / investigation ongoing |

**ATODIAD / ENCLOSURE 3**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 4 (Ionawr 2022 – Mawrth 2022) – 2021/2022 – Quarter 4 (January 2022- March- 2022)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Dim i'w adrodd / Nothing to report | | | | |

Tudalen 23

22335/00703759

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2022) – 2021/2022 – Quarter 4 (January – March 2022)**



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Tref / Town Councillor | Cynghorydd Tref / Town Councillor | (i) 023643<br>(ii) 202103868 | 06.09.2021 | Ymchwiliad yn parhau / investigation ongoing |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **28 Mehefin 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru hyd yma (a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 16 Rhagfyr 2021)** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

1. Ffurfio tribiwnlysoedd, neu dribiwnlysoedd achos interim, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn dilyn ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod; ac

2. Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 16 Rhagfyr 2021. Bwriedir iddo fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynir gan PDC. Mae'r achosion a gofnodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar wefan PDC ar hyn o bryd

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Ceir crynodeb o'r achos/achosion perthnasol yn **ATODIAD 1**.

### 2.1 Penderfyniadau a wnaed

APW/001/2021-022/CT: Y Cynghorydd Jonathan Bishop 7/9/10 Chwefror 2022
APW/005/2021-022/CT: Y Cynghorydd Perry Morgan 20 Ionawr 2022
APW/006/2021-022/CT: Y Cynghorydd William Roy Owen 20 Rhagfyr 2022

**2.2 Apeliadau a benderfynwyd**

APW/003/2021-022/AT: Y Cynghorydd Gareth Baines 13 Ionawr 2022

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodebau achos.

**Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achos –Rhagfyr 2021- Mawrth 2022**

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd Ray Owen Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon ('y Dref Cyngor') a Chyngor Gwynedd<br><br>APW/006/2020-021/CT | Honiad bod y Cynghorydd William Ray Owen wedi torri Cod Ymddygiad Aelodau Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon a Chyngor Gwynedd **:** Torri paragraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a), 6(1)(d), 6(2) a 7(a) o God Ymddygiad y Cyngor.<br><br>Honiad 1: Materion yn ymwneud â Phresgripsiynau, Gwirfoddolwyr a materion eraill<br>Crynhowyd yr Honiad gan yr Ombwdsmon fel a ganlyn; "Rhannwyd gwybodaeth am yr achwynydd ar Facebook a gyda gweithwyr proffesiynol, gysylltiedig â'r ddau Gyngor, am yr achwynydd" a chyfeiriodd at y paragraffau canlynol o'r Cod; -<br>Paragraff 4(b); "Rhaid i chi ddangos parch ac ystyriaeth ohonynt".<br>Paragraff 4(c); "Rhaid i chi beidio â bwlio nac aflonyddu ar neb,".<br>Paragraff 6(1)(a); "Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod". | Mewn perthynas â **Honiad 1**, penderfynodd PDC:<br>- Ar sail canfyddiadau ffeithiol a'r dystiolaeth ddogfennol, canfu'r Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol bod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â Pharagraff 7(a), ond nid Paragraffau 4(b), 4(c) neu 6(1)(a) o'r Cod mewn perthynas â Honiad 1 | Cosb:<br><br>Adroddodd Clerc y Tribiwnlys na chafwyd unrhyw achosion o dorri'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r Ymatebydd yn flaenorol.<br>Ystyriodd y Tribiwnlys Achos Ganllaw ar Gosbau bresennol Panel Dyfarnu Cymru yn ofalus ac, yn benodol, nododd fudd y cyhoedd- "Prif ddiben y drefn gosbau yw cynnal safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a chadw hyder mewn democratiaeth leol. Dylai tribiwnlysoedd adolygu'r gosb a ddewiswyd ganddynt drwy ei chymharu â phenderfyniadau blaenorol Panel Dyfarnu Cymru ac ystyried gwerth y gosb a ddewiswyd o ran effaith ataliol ar gynghorwyr yn gyffredinol a'i heffaith o ran hygrededd ymhlith y cyhoedd yn ehangach. Os yw'r ffeithiau a arweiniodd at dorri'r cod yn golygu bod yr aelod yn gwbl anaddas ar gyfer swydd gyhoeddus, yna mae'n debyg mai anghymhwyso, yn hytrach nag atal dros dro, fydd y gosb fwyaf priodol."<br>Nid oedd yr Ymatebydd o'r farn y dylai dderbyn unrhyw gosb ffurfiol, ac roedd yn arbennig o bryderus na fyddai bellach yn cael lwfans fel Cynghorydd Sir pe bai'n cael ei atal dros dro neu ei |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Paragraff 7(a); "Rhaid i chi yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall".<br><br>Manylion honiad 2: Yr Ymosodiad honedig<br>Crynhowyd yr Honiad gan yr Ombwdsmon fel a ganlyn: -<br>"Wedi mynd at yr achwynydd ar y stryd a chodi ffrae nes bod angen galw'r heddlu" a chyfeiriodd at y Paragraff canlynol o'r Cod; -<br>Paragraff 6(1)(a); " Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod."<br>Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliadau canlynol mewn perthynas â'r Honiad hwn; -<br>Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr Ymatebydd wedi ymosod ar gyd-Gynghorydd, yr oedd y Cynghorydd Larsen yn dosbarthu taflenni gydag ef yn hysbysebu | Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad drwy benderfyniad unfrydol nad oedd yr Ymatebydd wedi torri Paragraff 6(1)(a) o'r Cod ynghylch Honiad 2 | anghymhwyso. Roedd hyn oherwydd ei honiad bod ei lwfans yn mynd tuag at driniaeth feddygol i berthynas ifanc.<br>Dywedodd yr Ombwdsmon ei bod yn anodd dilyn gohebiaeth gan yr Ymatebydd ac nad oedd yn cymryd rhan yn y broses ymchwilio mewn ffordd ystyrlon.<br>Nododd yr Ombwdsmon bod diffyg sail a hygrededd ynghylch y cwynion am y Cynghorydd L a bod yr effaith ar y Cynghorydd L wedi bod yn sylweddol, gan achosi straen a gofid. Cyfeiriodd at nifer o achosion o dorri amodau dros gyfnod parhaus.<br>Dywedwyd bod yr Ymatebydd wedi cyfeirio at genfigen ers amser yn erbyn y Cynghorydd L am fân bethau canfyddedig, ond nad yw wedi darparu unrhyw dystiolaeth o ymddygiad gwael gan y Cynghorydd L i gyfiawnhau natur ei ymddygiad tuag ato. Yn olaf, mae'r Ymatebydd, fel aelod etholedig, yn berson y gellir ymddiried ynddo yn y gymuned gyda dilyniant ar y cyfryngau cymdeithasol. Felly, dim ond fel ymgais i niweidio statws Cynghorydd L yn y gymuned y gellid dehongli ei ymddygiad tuag at Gynghorydd L. Canfyddiadau'r Tribiwnlys Achos ar Gosb 9.5 Roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn bod torri Paragraffau 6(1)(d), 6(2) a |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | gwasanaethau grŵp gwirfoddol sy'n gysylltiedig â'r Cynghorydd L, yn ystod pandemig Covid-19. Cysylltodd yr Ymatebydd â'r Cynghorydd L, a oedd ar y pryd yng nghwmni cynghorydd arall ar 5 Gorffennaf 2020 a bu ffrae. Roedd yr heddlu'n gysylltiedig â'r mater ac er i'r Ymatebydd wrthod llofnodi'r gwaith papur datrys cymunedol perthnasol, roedd yr heddlu o'r farn ei bod yn briodol rhoi gair o gyngor i'r Ymatebydd<br><br>Manylion Honiad 3:<br>Datgelu Gwybodaeth Bersonol<br>Crynhowyd yr Honiad gan yr Ombwdsmon fel a ganlyn; "Gwybodaeth wedi'i phostio, y dylid ei hystyried yn rhesymol yn gyfrinachol, am aelodau o deulu'r achwynydd" a chyfeiriodd at y Paragraff canlynol o'r Cod; - Paragraff 6(1)(a); "Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eich swyddfa neu'ch awdurdod."<br>Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliadau canlynol mewn perthynas â'r Honiad hwn; - Datgelodd yr Ymatebydd wybodaeth bersonol drwy bostio | Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad, er y gallai'r weithred fod wedi niweidio ei enw da personol, na fyddai'n cael ei hystyried yn rhesymol fel gweithred a fyddai'n dwyn anfri ar swydd neu awdurdod yr Ymatebydd. Nid oedd y gwasanaeth gwirfoddol wedi'i sefydlu gan y Cyngor Tref neu Gyngor Gwynedd a byddai'r darllenydd wedi cysylltu'r cynnwys ar Facebook yr Ymatebydd yn yr achos hwn â'i gapasiti preifat/gwirfoddol yn hytrach na'i swydd swyddogol.<br>Felly, daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad drwy benderfyniad unfrydol nad oedd yr Ymatebydd wedi torri Paragraff 6(1)(a) o'r Cod. | 7(a) wedi bod yn achosion difrifol a oedd yn mynd at wraidd egwyddorion Nolan o ran diffyg gonestrwydd, uniondeb, bod yn agored ac arweinyddiaeth gyda phosibilrwydd o danseilio democratiaeth leol. Nododd fod yr Ymatebydd wedi parhau i wneud cwynion gormodol, di-sail a maleisus a oedd yn parhau i danseilio'r egwyddorion hyn.<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn bod gweithredoedd yr Ymatebydd wedi bod yn fwriadol neu ar y gorau yn afresymol ac o dan yr amgylchiadau, roedd anghymhwyso yn gosb bosibl yn yr achos hwn oherwydd difrifoldeb yr achosion o dorri'r rheolau ac i wneud yn glir bod yr ymddygiad hwn yn annerbyniol mewn swydd gyhoeddus.<br><br>Serch hynny, roedd y Tribiwnlys Achos yn ymwybodol y gallai anghymhwyso yn yr achos hwn gael effaith anghymesur ar yr Ymatebydd, gan y byddai'n debygol o'i atal rhag sefyll mewn etholiad tan 2027. O dan amgylchiadau eithriadol yr achos hwn, roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn y byddai gwaharddiad hir yn debygol o'i atal rhag gwneud hyn eto.<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos wedi ystyried cosbau a osodwyd mewn achosion blaenorol a'r egwyddor y dylai'r gosb a |

| **Enw** | **Crynodeb o'r Ffeithiau** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canfyddiadau** |
|---|---|---|---|
| | ar Facebook fod grŵp gwirfoddol yr oedd yr Ymatebydd yn ymwneud ag ef, wedi danfon pryd o fwyd i rieni'r Cynghorydd L.<br>Fel gwirfoddolwr yn ystod pandemig Covid-19, roedd yr Ymatebydd yn derbyn gwybodaeth y byddai'n rhesymol disgwyl iddo ei thrin yn gyfrinachol.<br>Gellid yn rhesymol ystyried bod y wybodaeth fod rhieni'r Cynghorydd L yn derbyn prydau gan sefydliad gwirfoddol yn ystod y pandemig yn gyfrinachol.<br>Nododd y sylwadau fod rhieni'r Cynghorydd L yn oedrannus ac yn agored i niwed a gallai hyn fod wedi'u rhoi mewn perygl. Roedd y sylwadau'n ymwneud â rôl yr Ymatebydd fel gwirfoddolwr yn hytrach nag fel aelod etholedig.<br><br>4.4 Manylion Honiad 4: Achosion bygythiol, gweithredoedd penodol, a chwynion<br>Crynhowyd yr Honiad gan yr Ombwdsmon fel a ganlyn; "wedi gwneud sawl cwyn i'r Clerc, yr Heddlu ac i'r Ombwdsmon, oedd yn ddi-sail ac a oedd yn ymddangos fel pe baent yn cael | Penderfyniad mewn perthynas â Honiad 4<br>Ar sail canfyddiadau ffeithiol a'r dystiolaeth ddogfennol, canfu'r Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol fod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â Pharagraff 6(1)(d) am y rhesymau canlynol. | osodir fod y lleiaf oedd ei hangen i gynnal y safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a chynnal hyder mewn democratiaeth leol.<br><br>Roedd natur a graddau'r achosion o dorri amodau a lefel y bai ar yr Ymatebydd yn yr achos hwn, ynghyd â chanlyniadau posibl hyn ar unigolyn arall, er ei fod o blaid gwleidyddol arall yn hytrach nag yn aelod o'r cyhoedd neu swyddog, yn golygu bod yr achosion hyn o dorri'r rheolau ar ben uchaf y raddfa atal o swydd o dan yr amgylchiadau. Wrth ei atal, byddai angen i'r gwaharddiad roi digon o amser i'r Ymatebydd fyfyrio ar ei ymddygiad cyn ystyried ailymuno â gwleidyddiaeth leol.<br><br>Ffactorau Lliniarol<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos wedi ystyried y ffactorau lliniarol canlynol<br>Roedd y Tribiwnlys Achos yn ymwybodol bod yr Ymatebydd wedi cyfeirio at amryw o faterion iechyd ac amgylchiadau personol ac nid oedd ganddo unrhyw reswm i beidio â chredu ei fod yn dioddef o rywfaint o straen oherwydd ymchwiliad yr Ombwdsmon.<br><br>Cydnabu'r Ombwdsmon hefyd; "Er nad yw'r Cynghorydd Owen wedi cyflwyno |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | eu hysgogi gan falais neu o blaid wleidyddol arall" a chyfeiriodd at y Paragraffau canlynol o'r Cod; - Paragraff 6(1)(d); "peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran."<br>Paragraff 7(a); "Rhaid i chi yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall." Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliadau canlynol mewn perthynas â'r Honiad hwn; - Gwnaeth yr Ymatebydd sawl cyfeiriad at geisio gwaharddeb yn erbyn y Cynghorydd L, gan gynnwys i drydydd partïon, ac roedd yn bygwth yn rheolaidd y byddai’n "mynd â materion ymhellach" i roi pwysau ar wahanol bartïon yr oedd yn anghytuno â nhw.<br>Gwnaeth yr Ymatebydd nifer o ddatganiadau yn cyfeirio at waharddeb, yn gwneud cwynion, | Roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon bod yr Ymatebydd, mewn perthynas â'r llu o fygythiadau o achosion a chwynion yn erbyn y Cynghorydd L, yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel aelod etholedig. Ysgrifennodd yn uniongyrchol at Glerc y Cyngor Tref ac at Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd yn rhinwedd ei swydd swyddogol, gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost ei Gyngor a'i lofnodi fel Cynghorydd. Felly, roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon bod holl ddarpariaethau'r Cod yn gymwys mewn egwyddor i'r Honiad hwn, gan gynnwys Paragraff 6(1)(d). 8.4.7 Roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon o dan yr amgylchiadau fod yr Ymatebydd wedi gwneud nifer fawr o gwynion blinderus, maleisus a gwamal yn erbyn y Cynghorydd L ar amrywiaeth o bynciau, nad oedd ganddynt unrhyw sail wirioneddol. Roedd wedi gwneud y cwynion hyn i Glercod y Cyngor Tref, y Swyddog Monitro, yr Ombwdsmon a'r heddlu. Prin oedd y dystiolaeth bod unrhyw un o'r camau barnwrol a fygythiwyd wedi'u cyflawni, ac eithrio llythyr cychwynnol gan gwmni o gyfreithwyr yn Romford a chyfarwyddiadau cychwynnol i gwmni arall o gyfreithwyr. Roedd wedi gwneud dwy gŵyn i'r Ombwdsmon, ond yna methodd â darparu unrhyw | tystiolaeth o'i salwch, nid yw ei ymddygiad fel y byddech yn ei ddisgwyl gan rywun sy'n iach" ac "Mae'r Cynghorydd Owen wedi nodi bod ganddo bwysau yn ei fywyd sydd wedi cyfrannu at ei weithredoedd. Dylid nodi hefyd ei bod yn ymddangos bod ei ymddygiad tuag at y Cynghorydd Larsen wedi gwaethygu yn ystod pandemig COVID 19".<br>Wedi gwasanaethu am dros 20 mlynedd mewn llywodraeth leol.<br><br>Mynegodd yr Ymatebydd beth edifeirwch a nododd fod un o'i sylwadau wedi bod "ychydig yn gryf". Dywedodd nad oedd ganddo unrhyw falais yn erbyn Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon ac mai dim ond ei iechyd ef oedd i "gyfrif am ei ymddygiad". Dywedodd nad oedd ganddo ddim yn ei herbyn a'i fod yn cydnabod mai dim ond gwneud ei gwaith oedd hi.<br><br>Cyfeiriodd at sawl ymddiheuriad yr oedd wedi'i wneud, a rhoddodd gopi o ymddiheuriad ysgrifenedig i'r Cynghorydd L, er nad oedd tystiolaeth ei fod wedi cyfleu'r ymddiheuriad hwn i'r Cynghorydd L.<br><br>Cydnabu'n fyr fod angen iddo newid ei ymddygiad, ac roedd wedi cyfeirio at y ffaith ei fod yn barod i fynychu hyfforddiant pellach. Cydnabu hefyd, pe |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | neu'n ymwneud â'r cyfryngau, at Glerc y Dref, y Prif Weithredwr, y Tîm Gofal Cymdeithasol ac at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gwnaeth yr Ymatebydd sylwadau tebyg ar Facebook hefyd. Ar wahân i geisio cyngor gan gyfreithiwr o Romford ar 16 Medi 2020, nid oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi gweld unrhyw dystiolaeth gredadwy bod yr Ymatebydd wedi gwneud achos cyfreithiol yn gofyn am waharddeb fel yr honnwyd, er iddo hysbysu swyddog Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 20 Medi 2020 ei fod wedi cyfarwyddo'r cyfreithiwr i weithredu.<br>Ni dderbyniwyd llythyr Protocol Cyn Gweithredu nac unrhyw arwydd bod yr Ymatebydd na'i gynrychiolydd cyfreithiol wedi gofyn am waharddeb yn erbyn Cynghorydd L.<br>Mae diffyg sail i gwynion yr Ymatebydd am y Cynghorydd L a diffyg hygrededd i'w ymwneud honedig â'r cyfryngau hefyd. Serch hynny, roedd y sylwadau | dystiolaeth i gadarnhau'r cwynion hyn ac wedyn gofynnodd am dynnu'r cwynion hyn yn ôl. 8.4.8 Er enghraifft, roedd yr Ymatebydd wedi cael esboniad llawn o sut yr oedd mater presgripsiynau wedi codi ac am y pryderon a oedd wedi arwain at newid yn y fethodoleg ar gyfer rhyddhau presgripsiynau. Fodd bynnag parhaodd yr Ymatebydd i fynd ar drywydd y mater hwn yn obsesiynol, er iddo gael esboniad gan Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd, a ddylai fod wedi rhoi digon o sicrwydd i'r Ymatebydd, ac a ddylai fod wedi cwblhau'r mater.<br><br>Nid oedd y Tribiwnlys Achos yn petruso rhag dod i'r casgliad bod y cymhelliant dros y cwynion yn cynnwys elfen o falais o ystyried y bwriad a nodwyd i "gael gwared" ar y Cynghorydd L fel blaenoriaeth. Roedd wedi defnyddio gwahanol ddulliau a llwyfannau i geisio cyflawni'r canlyniad hwn. Roedd o'r farn bod y cwynion hefyd yn flinderus ac yn wamal ac wedi arwain at ddwysáu'r digwyddiadau a defnydd anghymesur iawn o fecanweithiau cwyno'r gwahanol gyrff yn ystod y pandemig. Nododd ei bod yn ymddangos bod patrwm ymddygiad o ran dod o hyd i faterion a llwybrau newydd i fynd ar drywydd y nod a | bai'n cymryd rhan ym Mhwyllgorau'r Cyngor, yna byddai'n cael atebion i bryderon. Dywedodd ei fod dod oddi ar Facebook.<br><br>Ffactorau Gwaethygol<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos wedi ystyried y ffactorau gwaethygol canlynol: -<br>Roedd gan yr Ymatebydd brofiad hir o lywodraeth leol a dylai fod yn gyfarwydd ag Egwyddorion Nolan ac yn gwybod beth yw disgwyliadau'r Cod.<br><br>Roedd wedi ceisio beio eraill yn annheg am weithredoedd yr Ymatebydd ei hun, yn bennaf y Cynghorydd L ond hefyd eraill gan gynnwys un o swyddogion Cyngor Gwynedd a Chlerc y Cyngor Tref.<br><br>Roedd yr Ymatebydd yn dangos patrwm mynych o ymddygiad a oedd yn dangos ei fod yn methu â chadw at y Cod dro ar ôl tro.<br><br>Nid oedd wedi gweithredu'n onest yn ystod yr ymchwiliad, er enghraifft, roedd wedi anfon cwyn ffurfiol at yr Ombwdsmon am y Cynghorydd L, gan roi rhifau cyfeirnod troseddau'r heddlu nad oeddent yn ymwneud â'r Cynghorydd L. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | mynych i nifer o wahanol bleidiau yn gwneud i'r Cynghorydd L deimlo ei fod yn cael ei danseilio a'i fygwth.<br>Gwnaeth yr Ymatebydd gwynion blinderus, maleisus neu wamal am wahanol asiantaethau a gwnaeth ddwy gŵyn anwir a hollol ffug bod y Cynghorydd L wedi torri'r Cod Ymddygiad i swyddog Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br>Adroddodd yr Ymatebydd hefyd am achos o aflonyddu yn erbyn y Cynghorydd L i Heddlu Gogledd Cymru, er nad oedd am wneud cwyn ffurfiol.<br>Mae'n ymddangos mai cwynion oedd y rhain i ddial am y cwynion a wnaed amdano.<br>Mae'r Ymatebydd wedi gwrthod darparu'r dystiolaeth yr honnodd ei bod wedi'i chael i gefnogi'r cwynion hyn ar ddau achlysur.<br>Roedd y cwynion yn erbyn y Cynghorydd L yn ddi-sail ac felly ymddengys eu bod yn flinderus ac yn faleisus.<br><br>4.5 Manylion Honiad 5: Methiant i gydweithredu ag ymchwiliad yr Ombwdsmon | ddywedwyd ganddo, sef i gael gwared ar y Cynghorydd L. Canfu felly fod achos prima facie o dorri Paragraff 6(1)(d) o'r Cod.<br><br>O ran Paragraff 7(a) o'r Cod, roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn mai'r un corff o dystiolaeth a arweiniodd at ganfyddiad o dorri 7(a) mewn perthynas â Honiad 4 a Honiad 1 ac, o dan yr amgylchiadau, nid oedd o'r farn bod angen ailystyried hyn.<br><br>Penderfyniad mewn perthynas â Honiad 5 | Er iddo fynegi ei fod yn edifar, roedd yn ymddangos nad oedd yr Ymatebydd yn deall nac yn derbyn yn llawn y yn sgil camymddwyn.<br><br>Gwrthododd yr Ymatebydd dderbyn y ffeithiau, er gwaethaf tystiolaeth glir i'r gwrthwyneb mewn perthynas â'r mater presgripsiynau.<br><br>Erthygl 10 Ystyriaethau ECHR<br>Cydnabu'r Tribiwnlys Achos fod y gosb o atal dros dro yn cynnwys prima facie o Erthygl 10 gan y gellid ystyried bod y canfyddiad yn cyfyngu ar hawl yr Ymatebydd i ryddid mynegiant.<br><br>Fodd bynnag, roedd o'r farn bod hon yn gosb a ragnodir yn ôl y gyfraith a bod angen iddi fod o hyd a oedd yn gymesur o dan yr holl amgylchiadau, o gofio budd y cyhoedd a'r angen i gynnal cyfraith a chyfiawnder a diogelu enw da a hawliau pobl eraill mewn cymdeithas ddemocrataidd.<br><br>Cydnabu’r Tribiwnlys Achos y byddai atal dros dro yn effeithio ar Hawliau Erthygl 10 yr Ymatebydd. Daeth i'r casgliad, fodd bynnag, mai atal dros dro am naw mis oedd yr isafswm angenrheidiol i gydnabod natur ddifrifol achosion yr Ymatebydd o dorri'r Cod. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Crynhowyd yr Honiad gan yr Ombwdsmon fel a ganlyn; "wedi methu'n fwriadol ag ymwneud â'm hymchwiliad mewn ymgais i osgoi'r broses"<br>a chyfeiriwyd at y Paragraff canlynol o'r Cod; -<br><br>Paragraff 6(2); "Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan eich awdurdod Paragraff 6(2); " Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a gynhaliwyd yn unol â'u priod bwerau statudol". | Roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn bod yr Ymatebydd wedi methu'n llwyr â chydymffurfio â cheisiadau rhesymol a phriodol yr Ombwdsmon wrth geisio cwblhau proses ymchwilio deg. Methodd â chydweithredu ag ymchwilydd yr Ombwdsmon a oedd yn gweithredu yn unol â phwerau statudol yr Ombwdsmon. Roedd wedi dychwelyd ffeil dystiolaeth yr Ombwdsmon a, gan fod disgwyl i Gynghorydd ystyried ac ymateb i ymchwiliad yr Ombwdsmon, yn seiliedig ar y wybodaeth yn y ffeil, roedd hyn yn dangos methiant neu amharodrwydd i ymgysylltu â phroses hanfodol wrth gynnal y Cod.<br><br>Gan fod yr Ymatebydd wedi gallu gohebu'n helaeth â'r Ombwdsmon yn ogystal ag unigolion a chyrff eraill, er nad oedd ffocws clir, roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn y gallai ac y dylai'r Ymatebydd fod wedi cydweithredu ac ymateb yn llawn ac yn briodol i ymchwiliad yr Ombwdsmon. Roedd wedi cael sawl cyfle i roi tystiolaeth a sylwadau ystyrlon i'r Ombwdsmon. Roedd hefyd wedi cael cyfleoedd i ddarparu tystiolaeth benodol nad oedd yn gallu ymgysylltu am resymau meddygol â phroses benodol ymchwiliad Ombwdsmon nac i | Roedd angen y gosb yn yr achos hwn i gynnal safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus, a hefyd i ddiogelu hawliau ac enw da eraill rhag honiadau di-sail ac annheg.<br><br>Daeth Y Tribiwnlys Achos i'r casgliad drwy benderfyniad unfrydol y dylid atal y Cynghorydd Owen rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon a Chyngor Gwynedd am cyfnod o naw mis neu, os yw'n fyrrach, gweddill ei gyfnod yn y swydd, o 21 Rhagfyr 2021.<br><br><u>Pwynt Dysgu</u><br>Mae'r achos hwn yn dangos sut mae'r tribiwnlys yn gwahaniaethu rhwng gweithredoedd 'swyddogol' ac 'answyddogol'.<br>Roedd yr ymatebydd wedi osgoi cosb fwy llym gan fod y Tribiwnlys wedi penderfynu nad oedd y cynghorydd, mewn rhai achosion, yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd ond fel aelod o'r cyhoedd. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | geisio cymorth ffrind neu benodi cynrychiolydd cyfreithiol neu gynrychiolydd arall i gynorthwyo. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o unrhyw gyflwr iechyd sylweddol a oedd yn ei atal rhag ymgysylltu ag ymchwiliad yr Ombwdsmon.<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn ei bod yn ymddangos bod gwahanol ymdrechion yr Ymatebydd i osgoi'r broses wedi'u cynllunio i ohirio neu ddrysu'r broses ac i ddadwneud yr honiadau. Roedd yr amharodrwydd i ymateb i gwestiynau, ond i'r gwrthwyneb i ymateb yn faith ac yn ormesol am faterion eraill, yn golygu bod yr Ymatebydd wedi mynd ati'n fwriadol i beidio ag ymgysylltu â'r broses statudol i ymchwilio i gwynion yn ei erbyn.<br><br>Roedd Y Tribiwnlys Achos hefyd o'r farn nad oedd yr Ymatebydd wedi ymateb i addasiadau rhesymol a wnaed gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â'r ymchwiliad, gan gynnwys ymgysylltu drwy gynrychiolydd, er gwaethaf cael cymorth proffesiynol gan eiriolwr, a chael cyfle i ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yn hytrach na chymryd rhan mewn cyfweliad ffurfiol. Nid oedd y Tribiwnlys Achos yn amau | |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | bod yr Ymatebydd yn teimlo bod y broses ymchwilio yn peri straen, ond parhaodd i weithredu fel Aelod ward ar y Cyngor Tref ac ar Gyngor Gwynedd ac roedd yn derbyn cefnogaeth. Roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn ei fod wedi mynd allan o'i ffordd i darfu ar y broses statudol ac osgoi'r broses honno.<br><br>O dan yr amgylchiadau, penderfyniad unfrydol y Tribiwnlys Achos oedd bod yr Ymatebydd wedi torri Paragraff 6(2) o'r Cod. Roedd o'r farn nad oedd Erthygl 10 ECHR yn berthnasol yng nghyd-destun gwrthod cydweithredu â phrosesau ac ymateb i gwestiynau. Hyd yn oed pe bai'n berthnasol a gellid ystyried bod y methiant i gydymffurfio â cheisiadau rhesymol gan yr Ombwdsmon, ynddo'i hun, yn fynegiant gwleidyddol, roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn bod ymddygiad yr Ymatebydd tuag at ymchwiliad yr Ombwdsmon a'r Swyddog Ymchwilio mor resynus fel y dylai Erthygl 10(2) fod yn gymwys. Roedd o'r farn bod angen defnyddio'r Cod i ddiogelu a chynnal y gyfraith ac enw da a hawliau pobl eraill. | |
| Y Cynghorydd Perry Morgan Cyngor Cymuned | Bod yr Ymatebydd wedi gwawdio'r Cynghorydd Lucas sydd â nam ar ei glyw a bod Ymatebydd yn ymwybodol o’r | Ar sail y canfyddiadau ffeithiol, canfu'r Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol fod methiant i gydymffurfio â | Cosb<br><br>Ystyriodd y Tribiwnlys Achos holl ffeithiau'r achos a rhoddodd ystyriaeth |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Abertyleri a Llanhiledd<br>Torri paragraffau 4(a), 4(b), 4(c), 6(1)(a), a 6(2) o God Ymddygiad y Cyngor.<br><br>APW/005/2021-022/CT | nam hwnnw, yn ystod cyfarfod y cyngor ar 30 Hydref 2019.<br>Honnwyd bod yr Ymatebydd wedi dweud "Mi alla i ddweud beth fynna i amdani, all hi ddim fy nghlywed beth bynnag" ac "dylai fod cyfraith yn erbyn cael menyw fyddar anabl yma, pa fudd ydi hi?"<br><br>Bod yr Ymatebydd wedi gwneud sylwadau gwahaniaethol yn gwawdio'r Cynghorydd Lucas yn syth ar ôl cyfarfod y Cyngor ar 30 Hydref 2019 a’i fod wedi gwneud y sylwadau canlynol: "beth ydach chi am wneud? Os ydw i eisiau siarad amdanoch chi, fe wna i, wnewch chi ddim clywed".<br><br>Bod ymddygiad yr Ymatebydd yn ystod cyfarfodydd y cyngor, yn benodol, siarad ar draws pobl eraill a sgwrsio â'r Cynghorydd White yn ymgais fwriadol i achosi anhawster i'r Cynghorydd Lucas<br>Bod yr Ymatebydd wedi peidio â defnyddio system meicroffonau’r Cyngor mewn ymgais fwriadol i achosi anhawster i'r Cynghorydd Lucas a bod yr Ymatebydd wedi rhoi ei law dros ei geg wrth siarad mewn ymgais fwriadol i achosi | chod ymddygiad yr awdurdod fel a ganlyn:<br><br>Mae paragraff 4(a) o'r Cod yn nodi bod yn rhaid i chi gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;<br><br>Mae paragraff 4(b) o'r Cod yn nodi bod yn rhaid i chi ddangos parch tuag at eraill ac ystyriaeth ohonynt;<br><br>Mae paragraff 4(c) o'r Cod yn nodi na ddylech chi fwlio nac aflonyddu ar neb.<br><br>Mae paragraff 6(1)(a) o'r Cod yn nodi na ddylech chi ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod.<br><br>Mae paragraff 6 (2) o'r Cod yn nodi bod yn rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol. | ofalus i'r Ganllaw Gosbau ac Egwyddorion Pwyllgor Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus.<br><br>Defnyddiodd y tribiwnlys y dull pum cam fel y'i nodir ym mharagraff 33 o'r Ganllaw Gosbau a daeth i'r casgliad bod yr achosion o dorri'r rheolau yn ddifrifol a bod eu canlyniadau i'r Cynghorydd Lucas yn benodol yn ddifrifol. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r dystiolaeth fod ymddygiad yr Ymatebydd yn arwain at ganlyniadau i eraill hefyd. Roedd yr achosion o dorri'r rheolau yn ymwneud â sylwadau a wnaed ar sail nam ar glyw'r Cynghorydd Lucas.<br><br>Ystyriodd y tribiwnlys yn ofalus a oedd anghymhwyso’r Cynghorydd yn briodol ond daeth i'r casgliad mai atal dros dro oedd y math o sancsiwn, ar y cyfan, a oedd yn briodol yn yr achos hwn.<br>Ystyriodd y tribiwnlys nifer a natur yr achosion o dorri amodau, a'r ffactorau lliniarol a gwaethygol fel y'u nodir ym mharagraff 42 o'r Ganllaw Gosbau.<br><br>Atgoffodd y tribiwnlys ei hun, yn unol â pharagraff 44 o'r Ganllaw Gosbau, mai prif ddiben y gyfundrefn gosbau yw cynnal y safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a chynnal hyder mewn democratiaeth leol. Ystyriodd y tribiwnlys |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | anhawster i'r Cynghorydd Lucas a oedd yn dibynnu'n rhannol ar ddarllen gwefusau.<br><br>Bod yr Ymatebydd wedi methu'n fwriadol ag ymgysylltu ag ymchwiliad yr Ombwdsmon. | Y canfyddiadau ffeithiol yw bod yr Ymatebydd wedi gwawdio'r Cynghorydd Lucas yn ystod cyfarfod y Cyngor ar 30 Hydref 2019 ac mae gwneud y sylwadau yn y maes parcio yn union ar ôl y cyfarfod hwnnw yn gyfystyr ag achos o dorri 4(a) a (b a 6(1) (a). Roedd y sylwadau'n amlwg yn amharchus ac yn anystyriol ac yn gysylltiedig ag anabledd y Cynghorydd Lucas. Mae'r canfyddiadau hyn gyda'i gilydd yn gyfystyr ag achosion o dorri 4 (c).<br>Mae Canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelod o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwahodd cynghorwyr i ystyried eu hymddygiad eu hunain o safbwynt y person arall ac yn disgrifio aflonyddu fel ymddygiad cyson sy'n peri gofid neu'n cythruddo pobl ac y gall y bwlio fod ar ffurf ymddygiad sarhaus, bygythiol, maleisus, difenwol neu fychanol.<br><br>"Mae ymddygiad o fwlio yn ceisio tanseilio unigolyn neu grŵp o unigolion, yn niweidiol i'w hyder a'u gallu a gall effeithio'n andwyol ar eu hiechyd." Roedd y Cynghorydd Lucas wedi cynhyrfu ac yn teimlo'n ei bod wedi cael ei bychanu gan y ffordd yr | y gosb a ddewiswyd ganddo yn erbyn penderfyniadau blaenorol PDC.<br><br>Derbyniodd y tribiwnlys y sylwadau a wnaed ar ran yr Ombwdsmon am y ffactorau gwaethygol a’r ffaith bod yr Ymgeisydd yn gwadu'r ymddygiad a'r ffeithiau yn barhaus. Yn y gwrandawiad gofynnodd yr Ymatebydd i newid ei ddatganiad a lofnodwyd ar 20 Awst 2021 ac awgrymu, wrth wadu'r ffeithiau, fod tystion wedi camgymryd y dyddiad 30 Hydref 2019 yr oedd wedi cytuno'n flaenorol oedd yn gywir.<br><br>Roedd diffyg hygrededd i'r ymdrechion hyn. Er bod Mrs Oakley wedi cyfeirio at hanes yr Ymatebydd o wasanaeth da, yn wir, ar ôl llofnodi ei ddatganiad o swydd ar 8 Mai 2017, roedd ei brofiad fel cynghorydd am dros ddwy flynedd ar adeg y digwyddiadau hyn yn gwneud ei ymddygiad yn ffactor gwaethygol.<br><br>Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad drwy benderfyniad unfrydol y dylid atal y Cynghorydd Morgan rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd am gyfnod o 10 mis neu, os yw'n fyrrach, gweddill ei gyfnod yn y swydd, o 20 Ionawr 2022 ymlaen.<br><br>Argymhellion y Tribiwnlys Achos |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | oedd wedi ei thrin. Mae'r sylwadau a wnaed amdani gan yr Ymatebydd yn gyfystyr â bwlio ac aflonyddu. Nid oedd y sylwadau am nam ar glyw'r Cynghorydd Lucas yn sylw gwleidyddol ond roeddent yn sylwadau sarhaus ac annymunol na fyddai'n deilwng o amddiffyniad ychwanegol o dan erthygl 10.<br><br>Roedd y sylwadau a wnaed gan yr Ymatebydd ar ôl y cyfarfod ar 30 Hydref 2019 yng nghyd-destun ei waith fel Cynghorydd. Roedd y sgwrs yn y maes parcio y tu allan i siambr y cyngor yn union ar ôl cyfarfod y cyngor ac roedd cynnwys y sgwrs yn ymwneud â materion yn codi o gyfarfod y cyngor ac aelodaeth o'r cyngor. Roedd ymddwyn yn y ffordd a wnaeth a defnyddio'r geiriau a wnaeth, yn dwyn anfri ar swydd yr Ymatebydd fel cynghorydd.<br><br>Roedd yr Ymatebydd yn gallu ymgysylltu ag ymchwiliad yr Ombwdsmon ac roedd yn gallu bod yn bresennol mewn cyfweliad ar-lein ym mis Rhagfyr 2020. Er bod y Tribiwnlys yn derbyn bod yr Ymatebydd yn dioddef o'r cyflwr y clywyd tystiolaeth amdano ar gamera, ac y byddai'n debygol na fyddai'n gallu delio â | Mae'r Tribiwnlys Achos yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r awdurdod;<br>Bod y Cynghorydd Morgan yn ymgymryd â hyfforddiant pellach ar y Cod Ymddygiad.<br>Bod y Cynghorydd Morgan yn ymgymryd â hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br><br><u>Pwynt Dysgu</u><br>Ym mhob un o'r achosion hyn, ystyriodd y tribiwnlys egwyddorion Nolan. Er mai'r rhain yw sail y drefn safonau, nid ydynt yn rhan o'r Cod Ymddygiad ac felly nid yw torri'r egwyddorion ynddo'i hun yn gyfystyr â thorri'r Cod.<br>Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr egwyddorion yn dylanwadu ar y tribiwnlys i raddau helaeth. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | materion ambell ddiwrnod oherwydd hyn. Nid oedd gan y tribiwnlys dystiolaeth o'i flaen y gallai seilio ei gasgliad arni, yn ôl pwysau tebygolrwydd, fod y salwch yn golygu bod yr Ymatebydd methu ag ymgysylltu â cheisiadau rhesymol gan yr Ombwdsmon, a chydymffurfio â nhw, yn ystod y cyfnod ymchwilio. Roedd yr Ymatebydd yn gallu anfon gohebiaeth ddadansoddol fanwl ym mis Mawrth 2020, i ohebiaeth drwy e-bost ym mis Rhagfyr 2020 ac i fynychu cyfarfodydd amrywiol y cyngor wyneb yn wyneb ac ar-lein. Roedd yr Ombwdsmon wedi gwneud addasiadau rhesymol drwy anfon yr holiadur cyfweliad ysgrifenedig. Felly, roedd yn torri amod 6(2). | |
| Y Cynghorydd Jonathon Bishop<br><br>Cyngor Cymuned Ffynnon Taf a Nantgarw<br>**Natur yr honiad:**<br><br>Torri paragraffau | Defnyddiodd yr Ymatebydd iaith mewn gohebiaeth, i Glerc y Cyngor ar 25 Medi a 31 Rhagfyr 2019 a 21 Ionawr a 3 Chwefror 2020, a'r Cadeirydd, y Cynghorydd Fowler, ar 11 Medi 2019, oedd yn dangos diffyg parch a/neu ystyriaeth i'r derbynwyr ac, yn achos Mrs Williams, roedd yn gyfystyr â bwlio ac aflonyddu; | Ystyriodd y Tribiwnlys Achos holl ffeithiau'r achos a'r Ganllaw Gosbau a gyhoeddwyd gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru o dan adran 75 (10) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.<br><br>Ystyriodd hefyd Egwyddorion Pwyllgor Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus y deilliodd egwyddorion craidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ohonynt. Roedd yr egwyddorion hynny'n gosod safonau ymddygiad a ddisgwylid gan gynghorwyr yn sefyllfa'r Ymatebydd ac | O ran y gosb gyffredinol a oedd yn briodol o dan yr amgylchiadau, roedd y Tribiwnlys o'r farn mai'r opsiwn o anghymhwyso oedd fwyaf perthnasol. Roedd y Tribiwnlys wedi dechrau drwy ystyried a allai beidio â chymryd unrhyw gamau na gosod ataliad rhannol ond, yn achos y cyntaf, roedd o'r farn bod yr ymddygiad wedi bod yn rhy ddifrifol ac, yn achos yr olaf, nid oedd unrhyw agwedd benodol ar ymddygiad yr Ymatebydd a oedd yn gwneud ataliad rhannol yn briodol. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| 4(b), 4(c), 6(1)(a), 7(a) a 9(a) o God Ymddygiad y Cyngor.<br><br>APW/001/2021-022/CT | Cyflwynodd yr Ymatebydd hawliadau treuliau am gefnogaeth a phresenoldeb Mr Edwards yng nghyfarfodydd y Cyngor ar 30 Hydref a 27 Tachwedd 2019.<br><br>Honnwyd na thalwyd costau o'r fath i Mr Edwards erioed, bod yr Ymatebydd wedi rhoi tystiolaeth ffug mewn perthynas â hawliadau o'r fath ac na chawsant eu gwneud yn unol â'r canllawiau a'r egwyddorion perthnasol.<br><br>At hynny, nododd yr Ymatebydd awydd i adennill taliad ar ran ei dad am gymorth a ddarparodd mewn cyfarfod arall ac mae'n debyg ei fod wedi darparu gwybodaeth ffug am berthynas ei dad â chwmni yr oedd yn ymwneud ag ef. Yn yr achosion hynny, honnwyd ei fod wedi methu â gweithredu'n onest;<br><br>Yn dilyn cyfweliad Mr Edwards gan yr Ombwdsmon ar 28 Chwefror 2020, anfonwyd datganiad tyst ato i'w gymeradwyo B. Mewn llythyr dyddiedig 2 Mawrth 2020 gan Mr Edwards ac a lofnodwyd ganddo, mae'n debyg, roedd yn | a oedd yn cynnwys gonestrwydd, uniondeb, parch a bod yn agored, yr oedd pob un ohonynt wedi'u dwyn i sylw yma.<br><br>Yn gyntaf, bu'n rhaid i'r Tribiwnlys Achos asesu difrifoldeb yr achosion o dorri amodau a'u canlyniadau. Roedd o'r farn bod ymddygiad yr Ymatebydd ar 11 Medi 2019 tuag at y Cynghorydd Fowler a, thros gyfnod hirach, i Mrs Williams wedi dangos diffyg parch ac wedi bod yn annerbyniol.<br><br>Roedd yn amlwg bod hyn wedi achosi gofid arbennig i Mrs Williams, yn dilyn dros ddeugain mlynedd o weithio mewn llywodraeth leol.<br><br>Mewn perthynas â'r materion treuliau fel y nodwyd uchod, wrth orffen roedd sylwadau'r Ymatebydd yn awgrymu ei fod yn ymwybodol fod yr hyn a hawliwyd ar ran Mr Edwards wedi bod yn fwy na'r hyn oedd yn ddyledus iddo. Beth bynnag fo'r defnydd a fwriedid o'r 'gwarged' y byddai CCMG CIC wedi'i sicrhau pe bai'r hawliadau wedi'u talu, y sylwadau oedd y cyfaddefiad cliriaf eto nad oedd yr hawliadau wedi'u cyfyngu i'r hyn oedd yn ddyledus i Mr Edwards. | O ran atal dros dro yn gyffredinol, gadawodd y diffyg edifeirwch a/neu ddealltwriaeth ymddangosiadol o'i gamweddau ymdeimlad o bryder i'r Tribiwnlys mewn perthynas ag ymddygiad yr Ymatebydd yn y dyfodol. At hynny, o ganlyniad i adran 76 (5) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol, byddai unrhyw waharddiad wedi'i gyfyngu i 4 Mai 2022, y dyddiad y byddai cyfnod swydd yr Ymatebydd yn dod i ben, ac roedd y Tribiwnlys o'r farn na fyddai wedi adlewyrchu natur y camweddau yn ddigonol.<br><br>Yna, ystyriodd y Tribiwnlys nodweddion lliniarol a gwaethygol ac, yn benodol, y materion hynny a nodir ym mharagraff 42 o Ganllaw Gosbau'r Llywydd.<br><br>Hysbyswyd y Tribiwnlys nad oedd gan yr Ymatebydd unrhyw hanes blaenorol o gamymddwyn gyda'r Ombwdsmon na'r Swyddog Monitro perthnasol.<br><br>O ran ffactorau lliniarol yr Ymatebydd mewn perthynas â'r gŵyn ynghylch yr e-byst at y Cynghorydd Fowler, nododd y Tribiwnlys ddau fater yn benodol; yn gyntaf, y bu rhywfaint o dderbyn camweddau ar y dechrau. Yn anffodus, fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod yr |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | gwrthwynebu'r datganiad tyst drafft. Honnodd yr Ombwdsmon fod yr Ymatebydd mewn gwirionedd wedi ysgrifennu'r llythyr, mater y gwrthododd ei egluro pan gafodd ei gyfweld. Honnwyd ei fod felly wedi ceisio ymyrryd â chwrs yr ymchwiliad. | Yn olaf, mewn perthynas â'r llythyr a ysgrifennwyd yn ôl yr honiad gan Mr Edwards, roedd y panel o'r farn bod hynny wedi bod yn fater difrifol. | edifeirwch hwnnw wedi diflannu erbyn adeg y gwrandawiad, wrth iddo honni'n barhaus na fyddai'r geiriau a ddefnyddiwyd wedi peri gofid i'r Cynghorydd.<br><br>Serch hynny, roedd wedi mynychu hyfforddiant pellach ar y Cod.<br><br>Yn ail, roedd y dystiolaeth feddygol mewn perthynas â'i anabledd yr oedd yn rhaid ei hystyried ac, yn benodol, y materion y dywedwyd oedd wedi cyfrannu at yr hyn a ddisgrifiodd fel 'achos o dorri lawr'; yn dilyn asesiadau ym mis Ebrill a mis Mehefin 2020 a'r cyfeiriad penodol at 'dorri lawr' pan fyddai wedi'i lethu.<br><br>Roedd y rheini'n ffactorau lliniarol pwysig ac roedd y tribiwnlys yn cydnabod bod arddull a chynnwys yr e-byst hynny at y Cynghorydd Fowler wedi bod yn wahanol iawn i gannoedd o rai eraill a anfonwyd ganddo.<br>Anogwyd y tribiwnlys gan effaith newid meddyginiaeth yr Ymatebydd ac roedd yn falch o glywed am ei berthynas bresennol â'r Awdurdod a'i gydweithwyr yng Nghyngor Plwyf Cam. Serch hynny, roedd yr Ymatebydd wedi bod yn gynghorydd, am gyfnodau, ers 2003 ac roedd yr e-byst wedi bod yn annerbyniol. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | | Roedd y tribiwnlys yn pryderu ynghylch ailadrodd yr ymddygiad o ystyried diffyg unrhyw ddealltwriaeth glir neu dderbyn ei gamweddau.<br><br>Ni ellid bod wedi dweud, fodd bynnag, fod y gyfres o negeseuon e-bost a oedd wedi'u hysgrifennu at Mrs Williams wedi deillio o'r un 'gwylltineb' byrbwyll. Roedd yr Ymatebydd wedi cychwyn ar ymgyrch i ddifrïo ac enllibio ac, er y gallai ei gyflwr fod wedi'i atal rhag gwerthfawrogi effaith ei ymddygiad ar rywun yn swydd Mrs Williams, roedd y Tribiwnlys yn pryderu y gallai ei ddiffyg edifeirwch neu ei ymwybyddiaeth arwain at ailadrodd yr un ymddygiad neu ymddygiad tebyg.<br><br>Roedd y Tribiwnlys o'r farn bod diffyg hyfforddiant yr Ymatebydd mewn perthynas â pharagraff 4 (c) o'r Cod yn bwynt gwael. Nid oeddent o'r farn y dylai cynghorydd, a oedd fel arall wedi'i rwymo gan y Cod ac yn ymwybodol ohono, fod wedi bod angen hyfforddiant ffurfiol er mwyn ei atal rhag ymddwyn mewn ffordd a oedd yn gyfystyr â bwlio neu aflonyddu.<br><br>Nid oedd y dystiolaeth feddygol ychwaith yn esbonio nac yn cyfiawnhau camwedd yr Ymatebydd mewn perthynas â'r materion treuliau a/neu ei ymwneud â chyfansoddiad llythyr Mr Edwards. Roedd |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | | y materion hyn yn ddifrifol a byddai wedi bod angen gofal, cyn-fyfyrio yn ogystal â bwriad i gamarwain. Nid oedd unrhyw beth yn y dystiolaeth feddygol i awgrymu bod nodweddion o'r fath yn nodwedd o'i anabledd.<br><br>Ystyriodd y Tribiwnlys Achos a ddylid addasu'r gosb a sut i'w haddasu er mwyn cael effaith ataliol briodol a chynnal hyder y cyhoedd yn y safonau a ddisgwylir mewn bywyd cyhoeddus. Daeth i'r casgliad drwy benderfyniad unfrydol y dylai'r Cynghorydd Bishop gael ei anghymhwyso am 12 mis rhag bod neu ddod yn aelod o'r Awdurdod neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000.<br><br><u>Pwynt Dysgu</u><br>Ym mhob un o'r achosion hyn, ystyriodd y tribiwnlys egwyddorion Nolan. Er mai'r rhain yw sail y drefn safonau, nid ydynt yn rhan o'r Cod Ymddygiad ac felly nid yw torri'r egwyddorion ynddo'i hun yn gyfystyr â thorri'r Cod.<br>Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr egwyddorion yn dylanwadu ar y tribiwnlys i raddau helaeth.<br>Y man cychwyn yma oedd anghymhwyso.<br>Fodd bynnag, efallai y bydd aelodau'n teimlo, o ystyried yr iaith a ddefnyddiwyd |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | | a'r anonestrwydd ymddangosiadol, fod y gosb yn drugarog. |
| Y Cynghorydd Gareth Baines<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>**Natur yr honiad:** Torri paragraffau 4(b), 4(c) a 7(a) o God Ymddygiad y Cyngor.<br><br>APW/003/2021-022/AT | Yr honiadau oedd bod y Cynghorydd Baines wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Tref y Waun drwy anfon e-bost ar 1 Tachwedd 2019 at gyflogwr yr achwynydd Mrs Rachel Allen gan geisio pardduo ei henw yn ei gweithle a gwneud iddi deimlo dan fygythiad ac yn agored i niwed. Anfonwyd yr e-bost o gyfrif personol y Cynghorydd Baines ond fe'i llofnodwyd "Y Cynghorydd Gareth Baines". Athro yw'r achwynydd. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod yr e-bost hwn yn weithred o ddial (oherwydd bod Mrs Allen wedi gwneud cwyn am y Cynghorydd Baines i'r Ombwdsmon), gyda'r nod o achosi anhawster i'r achwynydd yn ei gweithle. Hefyd, anfonodd y Cynghorydd Baines gopi o'r e-bost hwn at Gyngor y Gweithlu Addysg, y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru, a ystyriwyd gan yr Ombwdsmon fel ymgais i achosi anfantais i'r achwynydd yn ei gweithle. | Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad, ar ôl ymchwiliad a oedd yn cynnwys cyfweld â'r Apelydd ar 27 Gorffennaf 2020, ac ystyried sylwadau a chyflwyniadau ysgrifenedig yr Apelydd, fod ymddygiad yr Apelydd yn awgrymu torri paragraffau canlynol y Cod Ymddygiad; • Rhaid i chi 4(b) ddangos parch ac ystyriaeth o eraill • Rhaid i chi 4(c) beidio â bwlio nac aflonyddu ar neb: • Rhaid i chi beidio â defnyddio ymddygiad bwlio nac aflonyddu ar unrhyw berson: • Rhaid i chi – 7(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;<br><br>Cadarnhaodd yr Apelydd, yn ysgrifenedig cyn gwrandawiad y Pwyllgor Safonau ar 22 Mehefin 2021, ac mewn sylwadau llafar yn y gwrandawiad hwnnw, nad oedd yn anghytuno â'r ffeithiau yn adroddiad yr Ombwdsmon. Yna, ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a chlywodd sylwadau gan gynrychiolydd yr | Mae'r tribiwnlys o'r farn mai'r man cychwyn ar gyfer hyd yr ataliad dros dro ar gyfer achosion a dderbynnir o dorri'r Cod a ganfuwyd gan y Pwyllgor Safonau yn yr achos hwn fyddai 3 mis, y dylid wedyn ychwanegu'r ffactorau lliniarol a gwaethygol.<br><br>Wrth ymgymryd â'r ymarfer hwnnw, a nodi'r ffactorau lliniarol yn yr achos hwn, yn enwedig y cydweithrediad llawn â'r Ombwdsmon a'r Pwyllgor, hanes dilychwin yr Apelydd hyd yma, ei fod wedi dweud ei fod yn edifar a nodi bod yr achosion o dorri'r rheolau wedi deillio o un e-bost na chafodd ei ddilyn ymhellach, mae'r tribiwnlys yn argymell bod atal am ddau fis yn briodol o dan amgylchiadau penodol yr achos hwn.<br><br>Mae'r Tribiwnlys Apêl yn derbyn, fel y cyflwynodd cynrychiolydd yr Ombwdsmon, mai mater i'r Pwyllgor Safonau lleol yw cosb mewn maes benodol ac nad ydynt yn gorfod dilyn awdurdodau cyfagos. Yn yr achos hwn, roedd gan y Pwyllgor hawl i ystyried tri mis fel cyfnod rhesymol ar gyfer atal dros dro. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | Ombwdsmon a gan yr Apelydd ynghylch a fu methiant i ddilyn y Cod Ymddygiad ar y ffeithiau. Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad y torrwyd paragraffau 4(b), 4(c) a 7(a) o'r Cod a gosododd y cosbau canlynol<br><br>Bod yr Apelydd yn cael ei atal fel Cynghorydd Cymuned o Gyngor Tref y Waun am gyfnod o dri mis.<br>Y dylai'r Apelydd ymgymryd â hyfforddiant Cod Ymddygiad cyn gynted â phosibl.<br><br>Y dylai'r Apelydd anfon llythyr o ymddiheuriad ysgrifenedig am yr achosion o dorri'r rheolau, at yr Achwynydd ac at Gadeirydd Cyngor Tref y Waun. | Yn dilyn y dull gweithredu yn y Ganllaw Gosbau, a nodi diben y gyfundrefn gosbi, i sicrhau effaith ataliol briodol ar yr unigolyn ac aelodaeth ehangach y Cyngor, ac i gynnal hyder y cyhoedd yn y safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus ac mewn democratiaeth leol, mae'r tribiwnlys yn argymell atal dros dro am 2 fis.<br><br>Yn unol â hynny, penderfynodd y Tribiwnlys Apêl drwy benderfyniad unfrydol i gymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Safonau y dylai fod yn ofynnol i'r Cynghorydd Baines ymgymryd â hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad cyn gynted â phosibl ac y dylai anfon llythyr o ymddiheuriad am dorri'r Cod at yr achwynydd ac at Gadeirydd Cyngor Tref y Waun.<br><br>Penderfynodd y Tribiwnlys Apêl drwy benderfyniad unfrydol i gyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Safonau gydag argymhelliad y dylid atal y Cynghorydd Baines rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o Gyngor Tref y Waun am gyfnod o 2 fis.<br><br><u>Pwynt Dysgu</u><br><br>Dywedodd y tribiwnlys mai'r man cychwyn ar gyfer atal dros dro yw 3 mis a |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | | dylid ychwanegu'r ffactorau lliniarol a gwaethygol.<br>Yn yr achos hwn, gallai'r ffaith bod yr ymatebydd wedi ysgrifennu at y corff llywodraethu gynnwys elfen o falais.<br>Fodd bynnag, argymhellodd y tribiwnlys y dylid lleihau'r gwaharddiad i 2 fis. |

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Pwyllgor Safonau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi gwybod i Aelodau am ddyletswyddau newydd a osodwyd ar y pwyllgor safonau ac arweinwyr grwpiau gwleidyddol a gyflwynwyd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021<br><br>Adrodd ar Weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2021/22 a sicrhau Cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/322 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) lbxcs@ynysmon.gov.uk |

**Cyflwyniad**

Dyma adroddiad blynyddol cyntaf y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Sir. Mae adroddiadau blaenorol wedi cael eu hystyried gan y cyngor ond mae'r rhain wedi bod yn adroddiadau gan Gadeirydd y pwyllgor.

1. Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol sydd â 9 aelod (2 gynghorydd sir, 5 aelod annibynnol a 2 aelod cyngor cymunedol). Mae manylion y Pwyllgor a'i aelodaeth ar gael yma.

2. Aelodau Annibynnol:

   Daw tymor pedwar aelod annibynnol i ben ar 19eg o Ragfyr 2027 tra daw tymor y pumed aelod annibynnol i ben ar 11eg o Ragfyr 2025.

   Rhaid penodi'r Cadeirydd o blith yr aelodau annibynnol. Penodwyd Mr John R Jones yn Gadeirydd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ym mis Chwefror 2020. Penodir y Cadeirydd am gyfnod o bedair blynedd.

3. Cynghorwyr Tref a Chymuned:

   Penodwyd y ddau gynrychiolydd cyngor tref a chymuned yn 2017 a pharhaodd eu penodiadau tan yr etholiad llywodraeth leol diwethaf. Mae proses recriwtio ar y gweill i ddau gynghorydd tref a chymuned eistedd ar y pwyllgor tan yr etholiad llywodraeth leol nesaf neu hyd nes nad yw unigolion a benodir yn aelodau o gyngor cymuned mwyach, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Gall aelod cyngor cymuned gael eu hailbenodi am un tymor arall, ar yr amod bod Cynghorau Tref a

Chymuned Ynys Môn wedi cytuno ar y cyd i ddewis aelodau presennol y cyngor cymuned fel enwebai ar gyfer y penodiadau.

4. Cynghorwyr Sir:

Mae'r ddau aelod cyngor sir yn cael eu penodi'n flynyddol gan y Cyngor.
Y ddau Gynghorydd Sir presennol yw'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes a'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas.

5. Cyn cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, roedd gan y Pwyllgor Safonau (ymysg eraill) y rolau a'r swyddogaethau a ganlyn mewn perthynas ag aelodau Cynghorau Sir ac aelodau cynghorau tref/cymuned:-
(a) hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau;
(b) cynorthwyo aelodau i gadw at eu Cod Ymddygiad;
(c) cynghori, hyfforddi, neu drefnu i hyfforddi aelodau;
(d) ystyried ceisiadau am oddefebau;
(e) ymdrin ag unrhyw atgyfeiriadau oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW), neu Banel Dyfarnu Cymru (y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol i bob pwrpas).

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi fod yn rhaid i'r pwyllgor safonau ddarparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor a rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn ac unrhyw argymhellion a wneir gan y pwyllgor o fewn tri mis o'i dderbyn.

Fel isafswm, rhaid i'r adroddiad:

- disgrifio sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn flaenorol;
- cynnwys crynodeb o adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) yn ymwneud ag ymchwilio i achosion honedig o dorri'r cod ymddygiad, ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y pwyllgor;
- disgrifio'r cyngor y mae wedi'i roi ar hyfforddiant i bob aelod a sut mae'r cyngor hwnnw wedi'i roi ar waith, a
- cynnwys asesiad y pwyllgor o sut mae arweinwyr grŵp wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd i hybu safonau ymddygiad uchel, gan gynnwys y cyngor y mae'r pwyllgor safonau wedi'i ddarparu a'r hyfforddiant y mae wedi'i argymell.

Gan mai hwn yw adroddiad cyntaf y pwyllgor, bydd rhywfaint o wybodaeth nad yw ar gael i'w rhoi yn yr adroddiad ar hyn o bryd ond bydd yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau pellach.

## Cefndir

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('y Ddeddf') wedi cyflwyno dyletswyddau newydd ar y pwyllgor a'r cyngor mewn perthynas â gwella safonau

ymddygiad cynghorwyr a chynghorwyr cyfetholedig yn y cyngor ac mewn perthynas â chynghorwryThref a Chymuned.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r dyletswyddau a gyflwynwyd gan y Ddeddf a'r gwaith y mae'r pwyllgor wedi'i wneud wrth baratoi ar gyfer y prif ddarpariaethau, a fydd ar ffurf Rheoliadau, ac sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r pwyllgor safonau wedi ymateb i'r ymgynghoriad ac mae ymateb y pwyllgor yn **Atodiad A**.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r gwaith y mae'r pwyllgor wedi'i wneud yn unol â'i gyfrifoldebau.

**Y dyletswyddau newydd**

Dyletswydd gan Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r grŵp.

Rhoddir y cyfrifoldeb hwn ar arweinydd grŵp gwleidyddol o fewn y cyngor. Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd hon, gosodir dyletswydd bellach ar arweinydd grŵp gwleidyddol i gydweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth ymarfer swyddogaethau'r pwyllgor.

Mae'r cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio i gymryd i ystyriaeth swyddogaethau diwygiedig y Pwyllgor ac mae'r rhain i'w gweld yn **Atodiad B.**

Daeth y dyletswyddau newydd a osodwyd gan y Ddeddf i rym ar y 5ed o Fai 2022.

Ymateb y Pwyllgor Safonau.

Ar wahân i ymateb i ymgynghoriad y llywodraeth, cyn yr etholiadau lleol, fe wnaeth Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y pwyllgor gyfarfod ag Arweinwyr y grwpiau gwleidyddol o fewn y cyngor i drafod y rolau a'r dyletswyddau newydd a gynhwysir yn y Ddeddf. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ar yr 8fed o Fawrth a'r 27ain o Ebrill 2021.

Roedd trafodaethau gyda'r arweinwyr yn cynnwys cyflwyno protocol datrysiad lleol.

Bydd gwaith yn parhau yn hyn o beth yn dilyn yr etholiadau lleol.

Dyletswydd Pwyllgor Safonau i fonitro cydymffurfiad arweinydd grŵp a darpariaeth cyngor a hyfforddiant.

Ymateb y Pwyllgor Safonau

Ar wahân i gwrdd ag arweinwyr y grwpiau, mae aelodau'r pwyllgor safonau hefyd wedi mynychu cyfarfodydd ffurfiol y cyngor gan gynnwys pwyllgorau trosolwg a sgriwtini i ddysgu mwy am sut maent yn gweithio a defnyddio'r wybodaeth hon wrth ystyried pa hyfforddiant y dylid ei gynnig.

Bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn i ddod.

Mae aelodau'r pwyllgor wedi trafod datrys cwynion yn anffurfiol ag arweinwyr grwpiau. Mae’r pwyllgor o’r farn y dylid defnyddio’r ddarpariaeth hon lle y bo’n briodol er mwyn ymdrin â phroblemau’n gynnar ac i fonitro unrhyw dueddiadau sy’n ymwneud â chwynion fel y gellir mynd i’r afael â’r rhain yn gynnar.

Mae trefn newydd i fynd i'r afael â hyn yn cael ei datblygu a bydd yn cael ei chyflwyno eleni.

Mae’r pwyllgor safonau hefyd yn ymwybodol o’i gyfrifoldeb i ddarparu hyfforddiant priodol ac mae cynllun gwaith y pwyllgor ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi’i ddiwygio i ddarparu ar gyfer hyn. Mae cynllun gwaith y pwyllgor ar gyfer y flwyddyn nesaf i’w weld yn **Atodiad C.**

Cynghorau Tref a Chymuned.

Mae gan y pwyllgor safonau hefyd gyfrifoldeb mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned ac i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn mae'r pwyllgor wedi ymgymryd â'r gwaith a ganlyn eleni.

Mae'r pwyllgor wedi cynnal adolygiad o gofrestr buddiannau aelodau Cynghorau Tref a Chymuned. Gofynnodd y pwyllgor i'r Cynghorau a oeddent yn fodlon iddo gynnal yr adolygiad hwn a dewiswyd sampl o gynghorau i'w hadolygu.
Mae adroddiad ar yr adolygiad wedi'i gynhyrchu a'i anfon at bob cyngor cymuned.

Roedd yr adroddiad yn ddienw a gofynnwyd i'r cynghorau adrodd ar y casgliadau, i gyfarfod o'u cynghorau yn y dyfodol. Mae’r adroddiad yn **Atodiad D.**

Mae’r pwyllgor hefyd yn dosbarthu cylchlythyrau rheolaidd i Gynghorau Tref a Chymuned i roi gwybod iddynt am waith y pwyllgor.

Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol a'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol

Ar wahân i ymateb i’r ymgynghoriad ar y Ddeddf, ymatebodd y Pwyllgor hefyd i adolygiad annibynnol o’r Fframwaith Safonau Moesegol a’r Cod Ymddygiad Enghreifftiol a gynhaliwyd gan Richard Penn. Mae’r ymateb yn **Atodiad E**.

Adroddiadau gan y PSOW

Cyhoeddir adroddiadau gan y PSOW mewn perthynas â chwynion a dderbyniwyd ynghylch toriadau honedig o’r cod ymddygiad gan aelodau’r cyngor neu Gynghorau Tref a Chymuned bob chwarter.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae’r PSOW wedi derbyn dwy gŵyn. Derbyniwyd y cwynion hyn yn chwarter 2.

Roedd un yn ymwneud â chynghorydd sir ac un yn ymwneud â Chynghorydd Tref a Chymuned.

O ran y gŵyn yn erbyn y cynghorydd sir, penderfynodd PSOW beidio ag ymchwilio ymhellach. Mewn perthynas â'r cynghorydd tref a chymuned, mae ymchwiliad PSOW yn parhau.

Mae'n galonogol nodi na dderbyniwyd unrhyw gwynion yn chwarteri 3 a 4, y cyfnodau diweddaraf y derbyniwyd adroddiadau yn eu cylch.

Goddefebau

Gall y Pwyllgor Safonau ganiatáu goddefebau, mewn rhai amgylchiadau a ddiffinnir gan statud, lle na fyddai'r aelod fel arall yn gallu cymryd rhan mewn dadl neu benderfyniad oherwydd diddordeb personol (rhagfarnol) sylweddol. Weithiau gall y Pwyllgor Safonau fod mewn sefyllfa i orgyrraedd y diddordeb sy'n rhagfarnu os bodlonir amodau penodol. Mae'r Rheoliadau Goddefebau yn berthnasol i aelodau Cynghorau Sir ac aelodau cynghorau tref a chymuned.

Ar y 12fed o Dachwedd 2021 rhoddodd y pwyllgor safonau 7 goddefeb i aelodau'r cyngor.

Caniatawyd y goddefebau o dan Baragraff 81(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar y seiliau a ganlyn:-

bod dim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor o'r awdurdod, y mae'r busnes i'w ystyried ganddo, â diddordeb sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw

bod dim llai na hanner aelodau pwyllgor arweinydd a chabinet, y mae'r busnes i'w ystyried ganddynt, â diddordeb sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw

Cynghorir holl aelodau'r Cyngor Sir ac aelodau cynghorau tref a chymuned i ystyried a allai cais am oddefeb fod yn briodol iddynt mewn rhai amgylchiadau ac fe'u hanogir i gysylltu â'r Swyddog Monitro am gyngor.

**Cwestiwn 1: A yw'r canllawiau drafft yn esbonio'n glir yr hyn a ddisgwylir gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn prif gynghorau, fel y'i nodir yn narpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), mewn ffordd y gall aelodau grwpiau gwleidyddol mewn prif gynghorau ei deall? Os nad ydynt, pam?**

Mae Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn o'r farn bod y canllawiau drafft yn glir. Fodd bynnag maent o'r farn y gellid eu cryfhau. Er enghraifft gellid newid y gair 'gallai' ym Mhennod 2, 'Mae'r camau rhesymol y gallai Arweinydd y Grŵp eu cymryd yn cynnwys', i 'dylai'. Nid yw'r canllawiau'n mynd i'r afael ag ymddygiad aelodau sydd ddim yn perthyn i grŵp a hwy, yn aml iawn, yw gwraidd y broblem.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol fod yn ddarostyngedig i'r un gofyniad i adrodd â'r Pwyllgor Safonau.

Maent o'r farn y dylai arweinwyr gwleidyddol gynhyrchu adroddiad blynyddol (o leiaf) sy'n amlinellu'r camau y maent wedi'u cymryd i gynnal safonau ymddygiad uchel o fewn eu grwp a rhagori arnynt.

Dylid cynhyrchu'r adroddiad ddeufis ar ôl dechrau blwyddyn y Cyngor fel y gellir ei ystyried cyn i'r Pwyllgor Safonau gynhyrchu ei adroddiad. Mae'r manteision yn cynnwys:

1.Dull cyson ledled Cymru.

2. Hysbysebu codi safonau ledled y Cyngor a Chymru.

3. Gallai adroddiad y Pwyllgor Safonau fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn adroddiad yr Arweinydd.

4. Gallai adroddiad yr Arweinydd nodi unrhyw dueddiadau o ran ymddygiad sy'n peri pryder a gallai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hwy a darparu cymorth.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn teimlo y dylid gorfodi Arweinwyr i hysbysu'r Pwyllgor Safonau ar unwaith os oes ganddynt unrhyw bryderon, efallai drwy ffurflen ddienw, fel y gall y Pwyllgor ddarparu cymorth a chyngor. Awgrymir y gallai adroddiad yr Arweinwyr gynnwys manylion ynglŷn â mân gwynion, unrhyw hyfforddiant a ddarparwyd ar ran yr Arweinwyr ac unrhyw ymdrechion gan yr Arweinwyr i godi safonau ymddygiad o fewn eu grŵp.

**Cwestiwn 2**: **A yw'r canllawiau drafft yn esbonio'n glir yr hyn a ddisgwylir gan Bwyllgorau Safonau mewn prif gynghorau, fel y'i nodir yn darpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mewn ffordd y gall Pwyllgorau Safonau ei deall?**
**Os nad ydynt, pam?**

Mae’r Pwyllgor Safonau o’r farn bod y canllawiau’n glir ynglŷn â’r mater hwn. Fodd bynnag mae o’r farn y gellid cryfhau rôl y Pwyllgor drwy gyflwyno hyfforddiant mandadol i bob aelod. Dylai hyn nid yn unig gynnwys y gofrestr diddordebau ond hefyd y gyfundrefn safonau gyfan yn cynnwys egwyddorion Nolan a datrys materion yn lleol. Dylai aelodau’r Pwyllgor Safonau helpu i ddarparu’r hyfforddiant yn ogystal. Maent o’r farn y gallai’r canllawiau sy’n ymwneud ag arfer swyddogaethau eraill beri dryswch, y gweithdrefnau ar gyfer cwynion camweinyddiaeth er enghraifft, gan eu bod yn feysydd sydd efallai wedi’u neilltuo i bwyllgorau eraill o fewn y Cyngor e.e. Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio.

**Cwestiwn 3: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?**

Nid yw’r Pwyllgor o’r farn y byddai’r canllawiau’n cael effaith sylweddol ar y Gymraeg. Hefyd, prin iawn yw’r sôn am y Gymraeg yn y canllawiau ac felly roedd y Pwyllgor wedi synnu bod y cwestiwn hwn wedi cael ei ofyn.

**Cwestiwn 4: Eglurwch hefyd sut rydych chi’n credu y gallai’r canllawiau gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

Mae’r Pwyllgor o’r farn y dylid annog cynghorau i gydymffurfio â’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â defnyddio’r Gymraeg. Dylid darparu gwasanaeth cyfieithu bob amser. Yn Ynys Môn cynhelir cyfarfodydd yn y Gymraeg a’r Saesneg ac mae gwasanaeth cyfieithu bob amser ar gael. Dylid ystyried annog mwy o defnydd o’r Gymraeg mewn Cynghorau ledled Cymru.

**Cwestiwn 5: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch ymateb isod i fynegi eich barn.**

Mae’r Pwyllgor o’r farn ei bod hi’n bwysig bod gan y pwyllgor berthynas dda gydag Arweinwyr pleidiau gwleidyddol. Felly, mae’n bwysig nad yw’r canllawiau’n trin arweinwyr yn nawddoglyd neu’n eu “bychanu”.

Mae’r weithdrefn ddatrys leol yn elfen bwysig o’r gyfundrefn Safonau ac felly dylid ystyried codeiddio’r Gyfraith i gynnwys hyn. Mae Arweinwyr pleidiau gwleidyddol Ynys Môn yn cwrdd â’i gilydd yn anffurfiol yn rheolaidd. Fodd bynnag, derbynnir nad yw hyn yn digwydd ym mhob awdurdod. Dylid hefyd annog cyfarfodydd anffurfiol rhwng Arweinwyr a’r Pwyllgor Safonau fel y gellir codi unrhyw broblemau a nodi unrhyw dueddiadau sy’n peri pryder. Mae’r Pwyllgor Safonau’n ymwybodol y gallai

datrysiadau lleol yn hytrach na phrosesau canoli anffurfiol ffurfioli materion ac mae o'r farn y dylid cymryd pwyll er mwyn gwahaniaethu rhwng y ddau ddatrysiad.

Gall datrysiadau lleol a phrosesau canoli ychwanegu at lwyth gwaith y Pwyllgor ac fe all hyn arwain at gostau ariannol i'r Pwyllgor ac felly dylid ystyried hyn yn ofalus.

Mae dau gwestiwn yn y ddogfen ymgynghori ynglŷn â'r Gymraeg er mai prin y cyfeirir at y Gymraeg yn y ddogfen. Hoffai'r Pwyllgor dderbyn cyfarwyddyd pellach ynglŷn â'r hyn a geisir gan y Pwyllgor yn y cyd-destun hwn.

Y pwynt olaf yw y dylid cymryd pwyll wrth gyfieithu dogfennau gan nad ydi pob cyfieithiad yn y ddogfen yn cyfateb.

**Atodiad 2**

**2.9.1 Pwyllgor Safonau**

Bydd y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Safonau.

**2.9.2 Cyfansoddiad**

**2.9.2.1 Aelodaeth**

Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys y rhai a ganlyn:

2 Gynghorydd Sir

5 aelod annibynnol

2 aelod o gyngor cymuned (nad ydynt, i bwrpas y Cyfansoddiad hwn, yn cael eu hystyried yn aelodau annibynnol).

**2.9.2.2 Tymor mewn swydd**

2.9.2.2.1 Penodir yr aelodau annibynnol yn awtomatig am gyfnod o ddau dymor o ~~bedair~~bum mb~~b~~lynedd yn olynol.

2.9.2.2.2 Oni bai y cânt eu hail ddewis, penodir yr aelodau cyngor cymuned hyd at yr etholiad nesaf neu tan fyddant yn peidio â bod yn aelod o gyngor cymuned o fewn ardal awdurdod lleol Cyngor Sir Ynys Môn, p'un bynnag sydd fyrraf. Gellir ail-benodi aelod o gyngor cymuned am un tymor olynol arall ar yr amod bod Cyngor Sir Ynys Môn a'r Cynghorau Cymuned wedi cytuno ar y cyd i ddewis aelod(au) cyfredol o gyngor cymuned fel enwebai ar gyfer y penodiad.

2.9.2.2.3 Bydd hyd tymor mewn swydd Cynghorwyr Sir sy'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn ddim mwy na ~~phedair~~phum mlynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodiad, p'un bynnag sydd fyrraf.

**2.9.2.3 Cworwm**

Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau gworwm oni bai fod:

2.9.2.3.1 o leiaf dri aelod, gan gynnwys y cadeirydd, yn bresennol; a bod

2.9.2.3.2 o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

**2.9.2.4 Pleidleisio**

Bydd gan Aelodau o'r Cyngor Sir aelodau annibynnol a'r aelodau o gyngor cymuned hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

**2.9.2.5 Aelodau Cyngor Cymuned**

2.9.2.5.1 Ni fydd yr aelodau o gyngor cymuned yn cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Safonau pan fo unrhyw fater yn ymwneud â'i Gyngor Cymuned yn cael ei ystyried.

2.9.2.5.2 Bydd yr aelodau cyngor cymuned ond yn cymryd rhan mewn gwrandawiadau/ceisiadau sydd gerbron y Pwyllgor Safonau pan fydd yn cyflawni'r dyletswyddau hynny sy'n ymwneud â chynghorau cymuned ac aelodau cynghorau cymuned yn unig.

**2.9.2.6 Cadeirio'r Pwyllgor**

2.9.2.6.1 Dim ond aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau all fod yn gadeirydd.

2.9.2.6.2 Bydd y cadeirydd yn cael ei ethol gan aelodau'r Pwyllgor Safonau am gyfnod na fydd yn hwy na ~~phedair~~phum m~~b~~lynedd neu am y cyfnod hwnnw y bydd yr unigolyn yn dal i fod yn aelod o'r Pwyllgor, pa gyfnod bynnag sydd fyrraf o'r ddau ond bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol fel cadeirydd.

**2.9.3 Rôl a Swyddogaeth**

Bydd gan y Pwyllgor Safonau'r rolau a'r swyddogaethau canlynol:

2.9.3.1 hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr;

2.9.3.2 cynorthwyo'r ~~C~~cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr i gadw Cod Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.3 cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.4 monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau (5.1);

2.9.3.5 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi ~~C~~cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni lywodraethwyr ar faterion yn ymwneud â Chod Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.6 rhoddi caniatâd arbennig i ~~G~~gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni lywodraethwyr o ofynion yn ymwneud â diddordebau a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau;

2.9.3.7 ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu o dribiwnlys achos amodol, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a drosglwyddwyd i'r swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2.9.3.8 ymarfer 2.9.3.1 i 2.9.3.7 uchod mewn perthynas â'r cynghorau cymuned yn ei ardal ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.

2.9.3.9 Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Mae'n rhaid i'r adroddiad ddisgrifio sut y cafodd swyddogaethau'r pwyllgor eu harfer yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys crynodeb o'r hyn a wnaethpwyd i gyflawni swyddogaethau cyffredinol a phenodol y pwyllgor mewn perthynas â:

2.9.3.9.1 monitro cydymffurfiaeth arweinyddion grwpiau â'u dyletswydd i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr.

2.9.3.9.2 darparu hyfforddiant i arweinyddion grwpiau er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan baragraff 2.9.3.9.1.

2.9.3.9.3 adroddiadau ac argymhellion a wneir gan y pwyllgor neu a gyfeirir ato mewn perthynas â:

- Canllawiau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)
- Ymchwiliadau gan OGCC
- Materion a gyfeiriwyd at y Swyddog Monitro gan OGCC a'r camau a gymerwyd
- Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru
- Penderfyniadau gan y tribiwnlys haen gyntaf
- Penderfyniadau gan dribiwnlys achos Cymru
- Camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath.

2.9.3.9.4 Gall adroddiadau blynyddol y pwyllgor safonau gynnwys argymhellion i'r awdurdod ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn perthynas ag o.

2.9.3.9.5 Mae'n rhaid i'r cyngor ystyried pob adroddiad blynyddol a luniwyd gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis sy'n cychwyn ar y diwrnod y mae'r cyngor yn derbyn yr adroddiad.

**Sylwer:** Mae copi o Gyfansoddiad llawn y Pwyllgor Safonau ar gael gan y Swyddog Monitro.

Formatted: Indent: Left: 2.38 cm

Formatted: List Paragraph, No bullets or numbering

Formatted: Indent: Left: 2.38 cm

Formatted: List Paragraph, No bullets or numbering

Formatted: Indent: Left: 2.66 cm, Hanging: 0.63 cm, Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 3.02 cm + Indent at: 3.65 cm

Formatted: Indent: Left: 2.38 cm

Formatted: Indent: Left: 1.75 cm, Hanging: 0.63 cm

Formatted: Indent: Left: 2.38 cm

**Atodiad 2**

### 2.9.1 Pwyllgor Safonau

Bydd y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Safonau.

### 2.9.2 Cyfansoddiad

#### 2.9.2.1 Aelodaeth

Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys y rhai a ganlyn:

2 Gynghorydd Sir

5 aelod annibynnol

2 aelod o gyngor cymuned (nad ydynt, i bwrpas y Cyfansoddiad hwn, yn cael eu hystyried yn aelodau annibynnol).

#### 2.9.2.2 Tymor mewn swydd

2.9.2.2.1 Penodir yr aelodau annibynnol yn awtomatig am gyfnod o ddau dymor o bum mlynedd yn olynol.

2.9.2.2.2 Oni bai y cânt eu hail ddewis, penodir yr aelodau cyngor cymuned hyd at yr etholiad nesaf neu tan fyddant yn peidio â bod yn aelod o gyngor cymuned o fewn ardal awdurdod lleol Cyngor Sir Ynys Môn, p'un bynnag sydd fyrraf. Gellir ail-benodi aelod o gyngor cymuned am un tymor olynol arall ar yr amod bod Cyngor Sir Ynys Môn a'r Cynghorau Cymuned wedi cytuno ar y cyd i ddewis aelod(au) cyfredol o gyngor cymuned fel enwebai ar gyfer y penodiad.

2.9.2.2.3 Bydd hyd tymor mewn swydd Cynghorwyr Sir sy'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn ddim mwy na phum mlynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodiad, p'un bynnag sydd fyrraf.

#### 2.9.2.3 Cworwm

Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau gworwm oni bai fod:

2.9.2.3.1 o leiaf dri aelod, gan gynnwys y cadeirydd, yn bresennol; a bod

2.9.2.3.2 o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

#### 2.9.2.4 Pleidleisio

Bydd gan Aelodau o'r Cyngor Sir aelodau annibynnol a'r aelodau o gyngor cymuned hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

**2.9.2.5 Aelodau Cyngor Cymuned**

2.9.2.5.1 Ni fydd yr aelodau o gyngor cymuned yn cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Safonau pan fo unrhyw fater yn ymwneud â'i Gyngor Cymuned yn cael ei ystyried.

2.9.2.5.2 Bydd yr aelodau cyngor cymuned ond yn cymryd rhan mewn gwrandawiadau/ceisiadau sydd gerbron y Pwyllgor Safonau pan fydd yn cyflawni'r dyletswyddau hynny sy'n ymwneud â chynghorau cymuned ac aelodau cynghorau cymuned yn unig.

**2.9.2.6 Cadeirio'r Pwyllgor**

2.9.2.6.1 Dim ond aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau all fod yn gadeirydd.

2.9.2.6.2 Bydd y cadeirydd yn cael ei ethol gan aelodau'r Pwyllgor Safonau am gyfnod na fydd yn hwy na phum mlynedd neu am y cyfnod hwnnw y bydd yr unigolyn yn dal i fod yn aelod o'r Pwyllgor, pa gyfnod bynnag sydd fyrraf o'r ddau ond bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol fel cadeirydd.

**2.9.3 Rôl a Swyddogaeth**

Bydd gan y Pwyllgor Safonau'r rolau a'r swyddogaethau canlynol:

2.9.3.1 hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr;

2.9.3.2 cynorthwyo'r cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr i gadw Cod Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.3 cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.4 monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau (5.1);

2.9.3.5 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni lywodraethwyr ar faterion yn ymwneud â Chod Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.6 rhoddi caniatâd arbennig i gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni lywodraethwyr o ofynion yn ymwneud â diddordebau a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau;

2.9.3.7 ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu o dribiwnlys achos amodol, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a drosglwyddwyd i'r swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2.9.3.8 ymarfer 2.9.3.1 i 2.9.3.7 uchod mewn perthynas â'r cynghorau cymuned yn ei ardal ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.

2.9.3.9 Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Mae'n rhaid i'r adroddiad ddisgrifio sut y cafodd swyddogaethau'r pwyllgor eu harfer yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys crynodeb o'r hyn a wnaethpwyd i gyflawni swyddogaethau cyffredinol a phenodol y pwyllgor mewn perthynas â:

2.9.3.9.1 monitro cydymffurfiaeth arweinyddion grwpiau â'u dyletswydd i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr.

2.9.3.9.2 darparu hyfforddiant i arweinyddion grwpiau er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan baragraff 2.9.3.9.1.

2.9.3.9.3 adroddiadau ac argymhellion a wneir gan y pwyllgor neu a gyfeirir ato mewn perthynas â:

- Canllawiau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)
- Ymchwiliadau gan OGCC
- Materion a gyfeiriwyd at y Swyddog Monitro gan OGCC a'r camau a gymerwyd
- Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru
- Penderfyniadau gan y tribiwnlys haen gyntaf
- Penderfyniadau gan dribiwnlys achos Cymru
- Camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath.

2.9.3.9.4 Gall adroddiadau blynyddol y pwyllgor safonau gynnwys argymhellion i'r awdurdod ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn perthynas ag o.

2.9.3.9.5 Mae'n rhaid i'r cyngor ystyried pob adroddiad blynyddol a luniwyd gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis sy'n cychwyn ar y diwrnod y mae'r cyngor yn derbyn yr adroddiad.

**Rhaglen Waith Ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Safonau 2022/23**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor llawn | Pwyllgor i ddechrau ystyried yr Adroddiad Blynyddol nesaf a dechrau gweithio arno cyn eu cyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin, 2022.<br>Rhannu'r adroddiad blynyddol (ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Cyngor) gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)? | Adroddiad drafft wedi cael ei ystyried yn ystod y cyfarfod anffurfiol ar 28/3/2022. Gwaith ar y gweill ar gyfer ei gyflwyno yn y cyfarfod ar 28/6/2022. |
| 2 | Adolygu'r Protocol Datrys yn Lleol | Diwygiwyd ym mis Mawrth 2022 - efallai y bydd angen adolygiad pellach yn dilyn trafodaethau gydag arweinwyr grŵp. Adroddiad o achosion anhysbys a gafodd eu datrys o dan brosesau datrys yn lleol i OGCC? | Wedi'i ddiwygio ym mis Mawrth 2022 – angen gwaith pellach. OGCC wedi cyhoeddi 'model' o brotocol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. |
| 3 | Cynnig a Darparu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau gwleidyddol. Angen penderfynu:<br>• Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant<br>• Cyfranogiad aelodau'r pwyllgor safonau<br>• Cynnwys uwch swyddogion? | Angen trafod gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r gwasanaethau democrataidd. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud ar ddechrau pob gweinyddiaeth ac o fewn 6 mis i'r etholiadau a rhaid eu hadolygu'n flynyddol o leiaf. | Wedi trafod gydag Adnoddau Dynol. Wedi gwneud ymholiadau gyda CLlLC ynghylch unrhyw hyfforddiant pwrpasol sydd ar gael. |
| 4 | Cyfathrebu gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol | Proses adrodd ffurfiol neu fwy anffurfiol ar gyfer arweinwyr?<br>Amlder yr adroddiadau gan arweinwyr grŵp?<br>Trefnu cyfarfodydd yn gyfnodol i adolygu ymddygiad? | Wedi cyfarfod ar 8/3/21 a 27/5/21 |
| 5 | Ymyrryd/hysbysu yn achos cwynion lefel isel, rhai o fewn grwpiau heb eu hadrodd i OGCC. | Angen gweld ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Penn. Rhaid i unrhyw adroddiadau fod yn anhysbys. | Wedi cyfarfod ar 8/3/21 a 27/5/21 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | Cyfarfodydd | Cyfarfod ffurfiol diwethaf 15/12/2021<br><br>Yn y cyfarfodydd anffurfiol ystyriwyd:<br>• ymgynghoriad LlC ar y canllawiau statudol drafft ar safonau ymddygiad<br>• adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor i'r Cyngor llawn<br>• rhaglen waith 22/23<br><br>Cynhelir y cyfarfod ffurfiol nesaf ar 28/6/2022. | Cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol ar 28/3/2022 a 27/4/2022 |
| 7 | Newyddlenni yn dilyn y cyfarfod ffurfiol ar 15.12.2021 | Aelodau i ystyried yr ymatebion dilyn i fyny gan nifer o gynghorau tref a chymuned yn dilyn trafodaeth ar y Newyddlenni yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2021. | |
| 8 | Adrodd am gwynion – Adroddiadau Diweddaru Chwarterol | Angen gweithio ar weithdrefn fel y gall aelodau'r Pwyllgor gadarnhau a bod yn sicr nad ydi achosion sy'n cael eu cyfeirio at OGCC yn dangos unrhyw dueddiadau o ran ymddygiad gwael. Bydd y broses hon yn cynnal a pharchuunrhyw ofynion cyfrinachedd gan OGCC mewn perthynas â'r materion hyn. | |
| 9 | Y Pwyllgor Safonau i Arsylwi gwaith Pwyllgorau Cyhoeddus a'r Cyngor llawn | Yn dilyn y penderfyniad y byddai aelodau'r Pwyllgor yn arsylwi trafodion cyfarfodydd ffurfiol, cyfarfodydd cyhoeddus Pwyllgorau penodol o'r Cyngor (Sgriwtini a Chynllunio) a chyfarfodydd o'r Cyngor llawn, hysbyswyd yr Arweinwyr Grŵp bod y trefniant hwn bellach yn weithredol. | Adroddiad *pro-forma* i'w ddatblygu i sicrhau bod yr holl faterion yn cael eu cofnodi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor sy'n dymuno ymgymryd â'r rôl arsylwi hon roi eu henwau ymlaen fel y gellir llunio amserlen a phennu cyfrifoldebau yn unol â hynny. | |
| 10 | Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau | | Trafodaethau gydag Adnoddau Dynol yn mynd rhagddynt. |
| 11 | Sut i gwyno | Ystyried sut i hyrwyddo sut i wneud cwyn yn erbyn aelodau etholedig unwaith y cytunir ar y broses ar gyfer cwynion 'lefel isel' yn dilyn Adolygiad Penn ac ymateb LlC. | |

# Adroddiad yn dilyn adolygiad y Pwyllgor safonau o Gofrestrau Diddordebau Cynghorau Tref a Chymuned – Mehefin 2021

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

***Hoffai'r Pwyllgor Safonau gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r clercod, ac aelodau'r pum Cyngor Tref a Chymuned a adolygwyd am eu hamser a'u cydweithrediad.***

*Ystyriwyd y bu'r adolygiadau'n ymarfer buddiol; yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor Safonau'n fodlon â'r canfyddiadau, gan iddo weld sawl enghraifft o arferion da. Fodd bynnag, nodwyd meysydd cyffredin a oedd yn achosi pryder hefyd ac mae'r rhain angen sylw. Mae'r Adroddiad hwn yn anelu at gynnwys y ddwy elfen hon, fel ei fod yn arweiniad defnyddiol i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ar yr hyn sydd angen ei wneud.*

**Y dogfennau a geisiwyd:**

Ym mhob Cyngor gofynnwyd am y dogfennau a ganlyn, a oedd yn dyddio'n ôl i fis Mai 2017 (h.y. dyddiad yr etholiad diwethaf) ar gyfer yr adolygiad:

- Cofrestr o Ddiddordebau Personol – sef y Gofrestr o Ddatganiadau a Wneir Mewn Cyfarfodydd a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch
- Copi o'r ffurflen ddatganiadau a ddefnyddir gan aelodau i ddatgan diddordebau personol/rhagfarnus mewn cyfarfodydd
- Cod Ymddygiad y Cyngor
- Rhestr o enwau'r holl Gynghorwyr [a manylion unrhyw sedd wag] ynghyd â chadarnhad bod pob aelod cyfredol wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad
- Cofnodion hyfforddiant yr aelodau
- Gwybodaeth am hyfforddiant y Clerc
- Protocol Datrys Anghydfodau Lleol y Cyngor ynghyd â gwybodaeth am ei fabwysiadu
- Cyfeiriad gwefan
- Copïau o Raglenni a Chofnodion cyfarfodydd y Cyngor ac is-bwyllgorau
- Manylion unrhyw ganiatâd arbennig a roddwyd i Gynghorwyr.

**Cod Ymddygiad:**

Daeth y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 i rym ar 1af Ebrill 2016. Roedd yn ofynnol i bob Cyngor Tref a Chymuned fabwysiadu'r Cod diwygiedig hwn. Ar ôl ei fabwysiadu, mae'n rhaid cyhoeddi hysbyseb mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal leol ac anfon copi o'r Cod at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. **Gellir gweld copi o'r Cod Ymddygiad Statudol yma (Atodiad 1).**

Roedd y Pwyllgor Safonau'n falch o nodi bod y mwyafrif o'r Cynghorau a adolygwyd wedi mabwysiadu'r Cod yn llawn.

- ➢ Gofynnir i **bob** Cyngor sicrhau ei fod yn dwyn sylw ei aelodau at y Cod diweddaraf a'u bod yn ei fabwysiadu os heb wneud hynny'n barod.

**Rhaglen a Chofnodion:**

Nid oes fformat penodol ar gyfer Rhaglenni a Chofnodion; fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried ei bod yn arfer da cynnwys 'Datganiadau o Ddiddordeb' fel eitem sefydlog ar Raglen pob un o gyfarfodydd y Cyngor, fel modd o atgoffa aelodau. Teimlwyd yn gyffredinol y dylid cynnwys mwy o wybodaeth yn y Cofnodion o dan yr eitem 'Datganiadau o Ddiddordeb' h.y. (a) enw'r aelod sy'n gwneud y datganiad llafar, (b) yr eitem y mae'r datganiad yn ymwneud â hi, a (c ) a oedd y datganiad yn ddiddordeb personol ynteu'n ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Ar ben hynny, o dan yr eitem o fusnes ei hun, byddai'n arfer da i'r Cofnodion gadarnhau (a) a wnaed datganiad o ddiddordeb, a chan bwy, (b) a yw'r diddordeb yn un personol ynteu'n un sy'n rhagfarnu, (c) manylion y diddordeb personol / diddordeb sy'n rhagfarnu, a (ch) yn achos diddordeb sy'n rhagfarnu, cadarnhad bod yr aelod wedi gadael yr ystafell gyfarfod. Mae cynnwys gwybodaeth o'r fath yn cynorthwyo'r cyhoedd i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw ac er budd y cyhoedd. Gallai fod yn arfer da hefyd, pan fo datganiad llafar yn ymwneud â diddordeb y mae'r Aelod wedi'i gofrestru'n barod (h.y. wedi'i ddatgan ar lafar am y tro cyntaf a'i gadarnhau yn ysgrifenedig), i'r Cofnodion gadarnhau'r manylion o ran pryd y cofrestrwyd y diddordeb gan yr Aelod – byddai hyn yn sicrhau tryloywder ar gyfer y cyhoedd pe byddent yn cwestiynu hynny.

**Ymrwymo i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad:**

Ar ddechrau pob cyfnod yn y swydd, mae'n ofynnol i bob aelod lofnodi ymrwymiad newydd i lynu wrth y Cod. Disgwyliwyd felly y byddai yna ffurflen ar gyfer pob Cynghorydd yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017, p'un a oedd yr aelod wedi'i ailethol ai peidio ac, yn wir, p'un a gynhaliwyd etholiad ai peidio ar gyfer y Cyngor hwnnw; neu pryd y cafodd yr aelod ei gyfethol. Tra bo hyn wed'i wneud ar gyfer mwyafrif helaeth yr aelodau yn y Cynghorau a adolygwyd, roedd rhai ar goll ac eraill wedi'u dyddio cyn Mai 2017.

Roedd y Pwyllgor Safonau'n falch, lle gwelwyd fod y ffurflenni ymrwymo wedi'u cwblhau, eu bod wedi'u llofnodi ym mhresenoldeb tyst (manylir ar statws y tyst yn adran 83 (3) Deddf Llywodraeth Leol 1972); [y clerc yw'r tyst fel arfer, yn rhinwedd ei swydd fel swyddog priodol y Cyngor, ac mae'r drefn hon yn cydymffurfio].

- ➢ Dylai Aelodau wirio a ydynt wedi arwyddo ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ym mhresenoldeb y Clerc, ers Mai 2017.
- ➢ Atgoffir Cynghorau bod rhaid i Gynghorwyr newydd a rhai sy'n dychwelyd arwyddo ymrwymiad yn dilyn etholiad Mai 2022.

**Fforwm Clercod:**

Mae sawl Clerc wedi awgrymu y byddent yn croesawu "grŵp cymorth i gymheiriaid" fel modd i Glercod allu rhannu syniadau a chefnogi ei gilydd. Mae hyn yn rhywbeth mae'r Pwyllgor Safonau'n ei gefnogi mewn egwyddor ac mae wedi cynnwys y syniad mewn ymarfer ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar y "Fframwaith Foesegol".

**Cofrestr Diddordebau Personol (sy'n cael eu datgan mewn cyfarfodydd):**

**→Fformat y Gofrestr:**

- Pan gynhaliwyd yr adolygiad blaenorol, roedd gan y mwyafrif o'r Cynghorau gofrestrau a oedd yn cynnwys (a) y Cofnodion ar gyfer y cyfarfod perthnasol (yn cadarnhau'r datganiad o ddiddordeb a wnaed ar lafar) a'r ffurflenni Datgan Diddordeb a gwblhawyd gan bob aelod yn dilyn datganiad llafar o ddiddordebau personol a/neu ddiddordebau sy'n rhagfarnu am y tro cyntaf yn ystod y cyfarfod. Ystyriwyd fod hwn yn fformat boddhaol.
  Yn ystod yr adolygiad hwn, roedd gan y mwyafrif o'r Cynghorau Gofrestrau ar ffurf Tabl, lle bydd y Clerc yn cynnwys y wybodaeth benodol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd.
  Nid oes unrhyw fformat penodol ar gyfer y Gofrestr, ond os dibynnir ar Dabl, rhaid cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn y Tabl crynhoi.
- Nodwyd bod nifer o Gynghorau Tref a Chymuned yn mynd tu hwnt i'r gofyniad yn y Cod i gadarnhau datganiad llafar pan wneir ef am y tro cyntaf trwy gadarnhau pob datganiad llafar gyda chadarnhad ysgrifenedig (o ganlyniad, gellid cael sawl ffurflen ddatganiad gan yr un aelod mewn perthynas â'r un mater mewn sawl cyfarfod gwahanol). Ymddengys fod hyn yn arfer dda ac yn fformat haws i'r cyhoedd allu gweld y ffurflenni. Serch hyn, nid yw'n ofyniad o dan y Cod Ymddygiad.
- Nid oedd unrhyw enghreifftiau o gadarnhad ysgrifenedig gan Aelodau fod manylion y diddordebau hynny sydd wedi'u datgan yn eu Cofrestr wedi newid. Atgoffir Aelodau o'u dyletswydd i gadarnhau unrhyw newidiadau i ddiddordebau personol/diddordebau sy'n rhagfarnu ac sydd wedi'u cofrestru o fewn 28 diwrnod i bryd y digwyddodd y newid.
- Atgoffir aelodau hefyd y bydd diddordeb personol/diddordeb sy'n rhagfarnu ond yn cael ei weld fel un a ddatgelwyd yn flaenorol os yw hysbysiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu ers y dyddiad diwethaf pan gafodd yr unigolyn ei ethol, ei benodi neu ei enwebu fel aelod o'r Cyngor. Dylai aelodau gadw hyn mewn cof yn enwedig yn dilyn etholiad Mai 2022.

**→Cyhoeddi:**

Rhaid cyhoeddi'r Gofrestr Diddordeb ar wefan eich Cyngor. Roedd y Pwyllgor Safonau'n falch o nodi bod pob Cyngor a adolygwyd yn gwneud hyn; mae hyn yn welliant ers Adolygiadau 2016 ac 2018.

**→Ffurflen cadarnhau datganiadau o ddiddordeb a wnaed mewn cyfarfodydd:**

Nid oes un fformat penodol ar gyfer y Ffurflen Datgan Diddordeb i'w ddefnyddio er mwyn cadarnhau datganiad o ddiddordeb personol a/neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu a wnaed ar lafar mewn cyfarfod. Roedd y mwyafrif o'r 'Ffurflenni Datganiad' a adolygwyd gan y Pwyllgor Safonau yn dilyn dogfen safonol CSYM ac roeddynt yn foddhaol yn nhermau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr Aelodau. **Gellir gweld copi o Ffurflen CSYM yma.**
Ni ddarparwyd copïau o'r ffurflenni a oedd wedi'u cwblhau i'r Pwyllgor Safonau mewn sawl un o'r Cynghorau a adolygwyd. Felly bu rhaid i'r Pwyllgor ddibynnu ar y wybodaeth a gynhwyswyd yn y gofrestr a gyflwynwyd ar ffurf Tabl, ac nid oedd hwn bob amser yn darparu darlun llawn.
Ar y sail hon, byddai'r Pwyllgor yn awgrymu cyhoeddi'r Ffurflenni Datganiad fel eu bod yn ffurfio rhan o'r Gofrestr trwy eistedd y tu ôl i'r Tabl.
Atgoffir Aelodau i ateb yn llawn bob cwestiwn perthnasol ar y Ffurflen Ddatganiad.

**Diddordebau Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu:**

Ymddengys nad yw Aelodau bob amser yn deall y gofyniad i ddatgan diddordebau personol a / neu ddiddordebau sy'n rhagfarnu pan fyddant yn codi, neu beth sy'n berthnasol a phryd. Atgoffir Aelodau:

- Diddordeb personol yw un o'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr benodol yn y Cod Ymddygiad;
- Diddordeb sy'n rhagfarnu yw diddordeb personol y byddai unigolyn gwrthrychol yn ystyried sydd mor arwyddocaol nes ei fod yn debygol o effeithio'n andwyol ar allu aelod i wneud penderfyniad er budd y cyhoedd;
- Mae'r gwahaniaeth rhyngddynt yn bwysig oherwydd bod gan aelodau hawl i gymryd rhan pan fydd ganddynt ddiddordeb personol, ond nid pan fydd ganddynt ddiddordeb personol sydd hefyd yn un sy'n rhagfarnu. Os yw'r diddordeb yn un sy'n rhagfarnu, mae'n rhaid i aelodau hefyd adael y cyfarfod yn gorfforol / rhithwir tra bod yr eitem yn cael ei thrafod.

Dylai Aelodau sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o dan y Cod Ymddygiad, ac os nad ydynt, dylent drefnu hyfforddiant priodol.
**Gellir gweld Nodyn Briffio ar ddatgan diddordebau personol a rhagfarnol gan Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yma.**
Os oes gan Aelodau unrhyw gwestiynau penodol, dylent ofyn am gyngor gan eu Clerc neu drwy gysylltu â'r Swyddog Monitro yn CSYM lbxcs@ynysmon.gov.uk

**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch:**

Tra nad oes unrhyw ofyniad i Gynghorau Tref a Chymuned gael Cofrestr Sefydlog (h.y. ar gyfer cofrestru rhai diddordebau ymlaen llaw), mae eich Cynghorau'n gorfod cynnal y ddwy Gofrestr arall a fynnir o dan y Cod. Felly mae gofyniad i Aelodau gofrestru unrhyw roddion a lletygarwch a dderbyniwyd ganddynt yn eu rôl fel Cynghorwyr, uwchlaw'r trothwy ariannol sydd i'w gytuno gan bob Cyngor. Mae'r maes hwn yn gofyn am sylw gan nad oedd gan fwyafrif y Cynghorau a adolygwyd Gofrestr ac nid oeddynt yn ymwybodol o'r gofyniad hwn.

- Dylai bod gan Gynghorau Gofrestr hyd yn oed os yw'n cadarnhau na wnaed unrhyw ddatganiadau.
- Rhaid i Aelodau sylweddoli fod gofyniad i gofrestru derbyniadau o'r fath, ac mae angen i bob Cyngor gytuno ar derfyn o ran y bydd rhaid cofrestru unrhyw roddion a lletygarwch y tu hwnt iddo.

**Hyfforddiant:**

**→Hyfforddiant i Glercod:**

Gall clerc sydd wedi ei hyfforddi'n briodol ac sydd â'r adnoddau priodol gynorthwyo'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, a bydd mewn sefyllfa well i gynghori aelodau, y tu mewn a'r tu allan i gyfarfodydd. Atgoffir aelodau mai'r clercod yw'r swyddogion priodol o fewn y Cynghorau ac y dylai'r aelodau roi sylw dyledus i'r cyngor a roddir gan y clerc.

**→ Hyfforddiant i Aelodau:**

Ymddengys fod y clercod yn rhoi gwybod i aelodau am hyfforddiant, ond, yn gyffredinol, mae'r aelodau'n methu/yn anfodlon mynychu'r hyfforddiant. Bydd mynychu hyfforddiant yn cynorthwyo aelodau gyda materion fel y rheini o ran materion personol / sy'n rhagfarnu a byddai'r Pwyllgor Safonau'n annog Aelodau i ystyried eu hanghenion o ran hyfforddiant.

Hysbysir y Cynghorau, o Fai 2022, bydd yn ofynnol i Gynghorau Tref a Chymuned lunio Cynllun Hyfforddiant sy'n nodi eu cynigion o ran y ddarpariaeth o hyfforddiant i Gynghorwyr a staff (adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

Atgoffir Cynghorau y gellid cynnwys swm ar gyfer hyfforddiant (i Glercod ac Aelodau) wrth osod eu praesept. Roedd gan y Cynghorau a adolygwyd fel rhan o'r ymarfer hwn gyllideb hyfforddiant, ond ymddengys nad oedd bob amser yn cael ei ddefnyddio; byddai'r Pwyllgor Safonau'n annog Cynghorau i ddefnyddio'r arian sydd ar gael ar gyfer unrhyw anghenion hyfforddiant a ganfuwyd.

**Caniatâd Arbennig:**

Ymddengys nad yw llawer o aelodau yn gwneud cais am ganiatâd arbennig.

Mae caniatâd arbennig ar gael i Aelodau pan fo ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu, ond oherwydd un o'r seiliau statudol, dylai bod modd i'r Aelod gymryd rhan yn y drafodaeth, er y diddordeb sy'n rhagfarnu (e.e. oherwydd arbenigedd yr Aelod, neu fod gan fwy na hanner aelodau'r Cyngor ddiddordeb sy'n rhagfarnu). **Mae Nodyn Briffio ar Ganiatâd Arbennig, sy'n ymgorffori'r Ffurflen Gais ei hun, ar gael yma.**

**Gwefannau:**

Ers mis Mai 2015, mae'n ofyniad statudol i Gynghorau Tref a Chymuned fod â gwefan a chyhoeddi gwybodaeth benodol arni. Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol i gynorthwyo Cynghorau i gyflawni'r ddyletswydd hon ac **mae copi pellach o'r Canllawiau hyn ar gael yma.**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n croesawu'r gwaith a wnaed mewn perthynas â chreu a chyhoeddi gwybodaeth ar wefannau, ac yn nodi bod hyn yn welliant ers yr Adolygiad diwethaf yn 2018.

- Atgoffir y Cynghorau o'r gofynion sylfaenol a nodir yn y canllawiau statudol, ac fe'u hanogir i gydymffurfio er mwyn bod yn weladwy i'r cyhoedd.

**Cyfarfodydd rhithwir:**

Cafodd pob Cyngor a adolygwyd eu canmol am eu hymagwedd o ran sicrhau bod cyfarfodydd y Cynghorau'n cael eu cynnal yn rhithwir yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda sawl Cyngor yn caniatáu i'r cyhoedd gael mynediad i'r cyfarfodydd rhithwir hefyd.

Canmolwyd y Cynghorau hefyd am eu haddasiadau o ran sicrhau'r gofyniad o dan y Cod Ymddygiad bod rhaid i aelod sy'n datgan diddordeb sy'n rhagfarnu adael cyfarfod. Roedd y Cynghorau'n adrodd eu bod (a) wedi symud eitemau'r Rhaglen er mwyn ystyried yr eitem dan sylw ar y diwedd [fel bod y Cynghorydd sydd â'r diddordeb sy'n rhagfarnu yn gallu gadael y cyfarfod] neu (b) defnyddiwyd "ystafell ddisgwyl Zoom" [a bod Clercod wedi rhoi'r Cynghorydd a chanddo ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn yr ystafell rithwir hon hyd nes bod yr eitem wedi'i dod i ben]. Gydag adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi bod rhaid i Gynghorau Cymuned barhau i ganiatáu mynediad o bell i gyfarfodydd yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor Safonau'n annog pob Cyngor i fabwysiadu trefniadau tebyg ar gyfer delio â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Protocol Datrysiad Lleol:**

O'r pum Cyngor a adolygwyd, roedd pedwar wedi mabwysiadu model Protocol Datrysiad Lleol (gyda thri ohonynt yn defnyddio'r model sydd wedi'i baratoi gan Un Llais Cymru). Mae'r Pwyllgor Safonau yn croesawu'r ffaith fod y Cynghorau'n mabwysiadu'r fath Brotocol, gan ei fod yn arfer da, er nad yw'n fandadol. Roedd y Pwyllgor Safonau hefyd yn croesawu'r ffaith nad oedd yr un o'r Cynghorau sydd wedi mabwysiadu'r Protocol wedi cael rheswm i'w ddefnyddio ers ei fabwysiadu.

- Lle bo angen i Glercod weithredu fel cyfryngwyr o dan y broses hon, mae' Pwyllgor Safonau'n eu hannog i gwblhau'r hyfforddiant perthnasol.

**ARFERION DA A GANFUWYD YN YR ADOLYGIADAU:**

(1) Gwelliant o ran faint o wybodaeth, gan gynnwys y Gofrestr o Ddiddordebau Personol, a gyhoeddwyd ar wefannau'r Cynghorau ers yr adolygiad diwethaf;
(2) Parodrwydd y Cynghorau i fabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol;
(3) Mae Cynghorau wedi addasu'n dda wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod yn y cyfarfodydd rhithwir;
(4) Cynnwys "Datganiadau o Ddiddordeb" fel eitem sefydlog ar Raglen bob cyfarfod o'r Cyngor;
(5) Fformat y 'Ffurflenni Datganiad' a ddefnyddir i ddatgan diddordebau personol/sy'n rhagfarnu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

**MEYSYDD I'W GWELLA:**

(1) Angen sicrhau cofnodion digonol sy'n dangos bod aelodau yn llofnodi ymrwymiad i lynu wrth y Cod Ymddygiad (fersiwn 2016) ar ddechrau pob tymor newydd yn y swydd;
(2) Fformat y Gofrestr o Ddiddordebau Personol Aelodau er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys gwybodaeth ddigonol a'i bod yn eglur i'r cyhoedd;
(3) Mae angen mynd i'r afael â diffyg dealltwriaeth posib rhai aelodau ynghylch y gwahaniaeth rhwng diddordebau personol a/neu rhagfarnol;
(4) Rhaid i gynghorau gynnal Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch ac i aelodau wybod y terfyn ariannol a gytunwyd gan eu cyngor
(5) Presennoldeb, a chofnodi, hyfforddiant aelodau a swyddogion, yn enwedig o ystyried y gofyniad i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant o 2022;
(6) Sicrhau fod rhagor o fanylion am y diddordebau a ddatganwyd yn cael eu cynnwys ar Raglenni/Cofnodion holl gyfarfodydd y Cynghorau.

**BUSNES Y CYNGOR / COUNCIL BUSINESS**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.) Cyfreithiwr/Solicitor**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO**
**DIRECTOR OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) / MONITORING OFFICER**

CYNGOR SIR YNYS MON /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW

DX: 701771 – LLANGEFNI

ffôn / tel: (01248) 75
ffacs / fax: (01248) 752132
E-Bost – E-mail: mwycs@ynysmon.gov.uk

Ein Cyf – Our Ref. MY/MWJ/CC-022335-MY
Eich Cyf – Your Ref.

Mr Richard Penn
penn.richard@yahoo.com

2/07/2021

Annwyl Mr Penn

**Adolygiad o'r Fframwaith Moesegol**

Diolch am y cyfle i gwrdd â chi i drafod eich adolygiad o'r Fframwaith Moesegol yn ystod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ar 24 Mehefin 2021.

Fel Pwyllgor Safonau rydym yn croesawu eich adolygiad ac, fel rhan o'r gwaith i baratoi ar gyfer y Fforwm, cyfarfu'r Pwyllgor Safonau i ystyried pa newidiadau / gwelliannau y gellid eu gwneud. Mae crynodeb isod o'r prif bwyntiau a godwyd gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn. Gobeithiwn y byddwch yn rhoi ystyriaeth iddynt wrth i chi lunio eich argymhellion i Lywodraeth Cymru:

1. <u>Trefniadau amgen:</u>
   Y posibilrwydd o gael trefn "cyffyrddiad ysgafn" ar gyfer cynghorau cymuned sydd â phraesept / cronfa wrth gefn / cyllideb islaw lefel benodol neu ryw fesur gwrthrychol arall.

   Neu fel arall, y posibilrwydd o greu is-bwyllgor asesu "sifft gyntaf" i benderfynu a yw cwynion yn deilwng o gael eu

Dear Mr Penn

**Review of the Ethical Framework**

Thank you for the opportunity of meeting to discuss your review of the Ethical Framework during the North Wales Standards Committee Forum on 24 June 2021.

As a Standards Committee, we welcome your review and, as part of the preparatory work for the Forum, we met as a Standards Committee to consider what changes / improvements might be made. Below is a summary of the key points made by the Isle of Anglesey County Council's Standards Committee. We hope you will take these into consideration in formulating your recommendations to Welsh Government:

1. <u>Alternative arrangements:</u>
   The possibility of introducing a "light touch" regime for community councils with a precept / reserve / budget below a specified level, or some other objective measure.

   Alternatively, the possibility of creating a "first sift" assessment sub-committee to determine whether there is sufficient

hanfon ymlaen at yr Ombwdsmon.

2. <u>Cyflwyno cwynion:</u>
Paragraff 6(1)(c) o'r Cod. Mae'r geiriad presennol yn creu disgwyliad y bydd Swyddogion Monitro yn gwneud cwynion i'r Ombwdsmon ar ran aelodau. Mae hyn yn creu gwrthdaro i'r Swyddog Monitro pe byddai angen cynghori'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddarach. Dylai fod yn eglur bod yr Ombwdsmon yn disgwyl i dystion uniongyrchol wneud cwynion, fel sy'n briodol.

3. <u>Dyletswydd Arweinyddion Grwpiau:</u>
Sut fydd y ddyletswydd statudol newydd ar arweinyddion grwpiau mewn perthynas ag ymddygiad (fel y mae'n cael ei chynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn cael ei hadlewyrchu yn y Cod? Ac, yn fwy penodol, beth fydd y disgwyliadau ar Bwyllgorau Safonau o ran goruchwylio'r ddyletswydd hon a roddir ar arweinyddion grwpiau?

4. <u>Cydraddoldeb:</u>
Paragraff 4(a) o'r Cod. Efallai bod angen ystyried diweddaru'r diffiniad o Gydraddoldeb yng nghyd-destun y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd newydd, sydd wrth gwrs yn effeithio ar aelodau wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol yn eu hawdurdodau.

5. <u>Hyfforddiant mandadol:</u>

(a) <u>Prif gynghorau:</u>
A ddylai'r Cod ei hun gynnwys gofyniad fod aelodau yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar y Cod ac unrhyw elfennau penodol eraill? Mae'n amlwg fod awdurdodau lleol Cymru yn amrywio yn hyn o beth. Yma yng Nghyngor Sir Ynys Môn, mae'n rhaid i aelodau gwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o

merit for complaints to be forwarded to the Ombudsman.

2. <u>Presenting complaints:</u>
Paragraph 6(1)(c) of the Code. The current wording creates an expectation on Monitoring Officers that they will make complaints to the Ombudsman on behalf of members. This creates a conflict for the Monitoring Officer if there is a need to advise the Standards Committee at a later stage. There should be clarity that the Ombudsman requires first hand witnesses to make complaints, as appropriate.

3. <u>Duty by Group Leaders:</u>
How will the new statutory conduct duty on group leaders (as included in the Local Government and Elections (Wales) Act 2021) be reflected in the Code? More particularly, what will be the expectations on Standards Committees to oversee this duty by group leaders?

4. <u>Equality:</u>
Paragraph 4(a) of the Code. Perhaps there needs to be consideration given to updating the definition of Equality matters in light of the new socio-economic duty which of course impacts members when making strategic decisions in their authorities.

5. <u>Mandatory training:</u>

(a) <u>Principal councils:</u>
Should the Code itself include a requirement that members must complete mandatory training on the Code and any other specific elements? It is clear that local authorities in Wales differ in terms of this requirement. Here in Ynys Môn, Code of Conduct training is mandatory for members within the

fewn chwe mis iddynt gael eu hethol, a ni chaniateir i aelodau eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu oni bai eu bod wedi derbyn hyfforddiant penodol. Mae rhai awdurdodau'n gofyn am lai na hyn, ac mae eraill yn gofyn am fwy. A ddylai hyn fod yn gyson ym mhob awdurdod?

(b) Cynghorau cymuned:
O ystyried y ddyletswydd statudol newydd ar bob cyngor cymuned i gyhoeddi cynllun hyfforddi blynyddol ar gyfer aelodau a chlercod (sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021), a oes cyfle i gynnwys unrhyw elfennau gorfodol mewn perthynas â hyfforddiant ar y Cod, ac, os felly beth fyddai'r elfennau gorfodol hynny? Beth am hyfforddiant gorfodol ar gyfer clercod, sy'n mynd tu hwn i'r Cod ei hun ac sy'n delio â materion llywodraethu ehangach? Ein profiad ni yw bod anghydfod ynghylch materion llywodraethu yn aml yn arwain at broblemau yn y berthynas rhwng clercod a rhai aelodau etholedig. A oes angen ehangu'r ymgynghoriad newydd ar gymhwyster ar gyfer clercod?

6. Cyfryngau cymdeithasol:
Wrth ystyried yr achosion y mae'r Ombwdsmon wedi adrodd arnynt yn ddiweddar mae'n holl bwysig bod y Cod yn rhoi sylw i Gyfryngau Cymdeithasol, er ein bod yn gwerthfawrogi mai'r llwyfan sy'n wahanol yn hytrach na'r disgwyliadau o ran ymddygiad.

7. Parch a bwlio:
Mae parch a bwlio yn ddau faes sylweddol o ran cwynion ac mae angen eglurder ynghylch pa faterion y dylai'r Ombwdsmon ystyried ymchwilio iddynt o dan y Cod Ymddygiad. Mae Calver, a phenderfyniadau dilynol, wedi codi mwy o gwestiynau nag y maent wedi eu hateb, yn arbennig mewn perthynas â'r

first six months of being elected, and members cannot sit on the Planning and Licensing Committee without having received specific training. Some authorities ask for less than this, and others require more. Should this be consistent in every authority?

(b) Community councils:
Given the new statutory duty on all community councils to publish an annual training plan for members and clerks (included in the Local Government and Elections (Wales) Act 2021), is it an opportunity to include any mandatory elements in relation to training on the Code, and, if so what would those mandatory elements be? What about mandatory training for clerks, which goes beyond the Code itself and deals with broader governance issues? It has been our experience that disputes about governance issues are frequently the trigger for relationship issues between clerks and some elected members. Should the new consultation on qualification for clerks be extended further?

6. Social media:
Considering the cases recently reported by the Ombudsman, it is imperative that the Code addresses the issue of Social Media although we appreciate that it is the platform which is different, rather than the behavioural expectations.

7. Respect and bullying:
Respect and bullying are two significant areas for complaints and clarity is required as to what matters should be considered for investigation by the Ombudsman under the Code of Conduct. Calver, and subsequent decisions, have raised more questions than they have answered, particularly

berthynas rhwng aelodau ac uwch swyddogion; ac yn arbennig Prif Weithredwyr yn derbyn cwynion cynyddol a gohebiaeth ormesol gan rai aelodau.

with regard to the relationship between members and senior officers; and particularly Chief Executives receiving cumulative complaints and oppressive correspondence from certain members.

8. Datrysiad lleol:

(a) Prif gynghorau:
A ddylid cael protocol datrysiad lleol safonol ar gyfer prif gynghorau er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch i bob aelod etholedig?
Yn arwain o hyn, a ddylai fod yn ofynnol i aelodau etholedig ymrwymo i gydweithredu â phrotocol datrysiad lleol (fyddai'n cael ei weithredu'n lleol a'i fabwysiadu'n genedlaethol) o dan y Cod Ymddygiad ei hun?

Yn ein barn ni fel Pwyllgor Safonau, nid yw'r broses datrysiad lleol wedi bod yn effeithiol oherwydd ei bod yn broses wirfoddol.

(b) Cynghorau cymuned:
O safbwynt datrysiad lleol mewn cynghorau cymuned, mae'n ymddangos nad yw pob cyngor wedi mabwysiadu model Un Llais Cymru; mae rhai wedi creu eu dogfen eu hunain ac nid oes gan eraill brotocol o gwbwl. Unwaith eto, a ddylid datblygu protocol datrysiad lleol safonol ar gyfer y cynghorau cymuned?

O ran model Un Llais Cymru, rydym yn credu fod problemau efo'r model hwn oherwydd ei fod yn rhoi cyfrifoldeb ar y clerc a'r cadeirydd i weithredu'r datrysiad. O'n profiad ni fel Pwyllgor, yn amlach na pheidio, problem yn y berthynas rhwng y clerc a'r cadeirydd yw'r rheswm am weithredu'r protocol yn y lle cyntaf, ac o'r oherwydd nid yw Protocol Un Llais Cymru yn addas

8. Local Resolution:

(a) Principal councils:
Should there be a standard local resolution protocol for principal councils in order to provide consistency and fairness to all elected members?
Following from this, should it be mandatory for elected members to undertake to co-operate with the local resolution protocol (locally applied and nationally adopted) under the Code of Conduct itself?

As a Standards Committee, it is our opinion that the local resolution protocol has proved ineffective because it is voluntary.

(b) Community councils:
In relation to local resolution at community councils, it seems that not all councils have adopted the One Voice Wales model; some have created their own document and others are without any protocol. Once again, should a standardised local resolution protocol be developed for community councils?

As far as the One Voice Wales model is concerned, we believe there are problems with this model as it focuses on the clerk and the chair as undertaking the resolution. However, from this committee's experiences, it is often difficulties in the relationship between the clerk and the chair that required local resolution in the first place; making the One Voice Wales Protocol unsuitable.

Beth yw rôl Pwyllgorau Safonau mewn datrysiad lleol ar lefel cynghorau cymuned, os oes rôl iddynt o gwbl? Mae unrhyw ddau aelod o'n Pwyllgor yn cynnal y broses datrysiad lleol, yn wirfoddol, gyda rhai cynghorau cymuned. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn hyfforddiant datrysiad lleol gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ac rydym ar fin derbyn yr hyfforddiant hwn unwaith eto.

A oes opsiynau eraill ar gyfer cyfryngwyr hyfforddedig e.e. Un Llais Cymru neu a ddylai hyn fod yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Safonau ar gais yr Ombwdsmon?

9. Clercod Cynghorau Cymuned:

(a) Rhwydwaith:
Mae ein Pwyllgor yn cynnal adolygiadau rheolaidd o lywodraethiant mewn sampl o gynghorau cymuned ac yn adrodd ar y canfyddiadau a'r argymhellion cyffredinol. Yn ystod y broses hon, nododd nifer o glercod cynghorau cymuned y byddent yn gwerthfawrogi rhwydwaith o glercod i gefnogi ei gilydd gan y gall y swydd fod yn un unig. Efallai y byddai adolygu'r Fframwaith Moesegol yn gyfle i sefydlu trefniant o'r fath.

(b) Pecyn cymorth:
Fel y gwyddoch, mae bod yn glerc yn golygu llawer mwy na drafftio rhaglenni a chymryd cofnodion: maent yn swyddogion proffesiynol ac mae ganddynt gyfrifoldebau statudol. Byddai creu pecyn cymorth ar gyfer clercod (yn ychwanegol i'r syniad o greu rhwydwaith cymorth, fel y nodir ym mhwynt 9(a) uchod) yn cadarnhau'r gofynion ac yn cynnig cysondeb mewn safonau ymysg gwahanol gynghorau. Byddai hefyd yn ddefnyddiol os byddai unrhyw hyfforddiant a ddatblygir yn cyd-fynd

What if anything should be the role for Standards Committees in local resolution at community level? Any two members of our Committee undertake the local resolution process, on a voluntary basis, with some community councils. The Committee has received training on local resolution from the Centre for Public Scrutiny and we are about to undertake this training again.

Are there other options for trained mediators e.g. One Voice Wales or should this be a Standards Committee function at the request of the Ombudsman?

9. Community Council Clerks:

(a) Network:
Our Committee undertakes regular governance reviews at a sample of community councils, and reports generic findings and recommendations. During the course of this process, several community clerks noted that they would appreciate a network of clerks to support one another as the job can often be isolating. Reviewing the Ethical Framework might be an opportunity to set up such an arrangement.

(b) Toolbox:
As you know, being a clerk is much more than drafting agendas and taking minutes; they are professional officers with statutory responsibilities. Creating a toolbox for clerks (in addition to the idea of creating a support network, as noted in point 9(a) above) would confirm the requirements and offer consistency of standards between different councils. It would also be useful if any training developed would complement the contents of this toolbox.

efo cynnwys y pecyn cymorth hwn.

10. Swyddogion Monitro:

(a) Llawlyfr:
Mae angen diweddaru llawlyfr y Swyddogion Monitro.

(b) Hyfforddiant:
Ar hyn o bryd nid oes rhaglen hyfforddi genedlaethol yng Nghymru ar gyfer darpar Swyddogion Monitro. Nid yw'r hyfforddiant a ddarperir yn Lloegr yn briodol erbyn hyn oherwydd gwahaniaethau mewn deddfwriaeth. Credir ei bod yn bwysig sicrhau bod y cyngor a roddir i Bwyllgorau Safonau, aelodau etholedig, cynghorwyr cymuned ac ati yn gywir ac yn gyfredol a bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer cynllunio olyniaeth. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Fframwaith Moesegol yn gweithredu'n effeithiol.

Fel rhan o hyn, efallai y dylid ystyried cymhwyster ffurfiol ar gyfer cyfreithwyr llywodraethiant sy'n dymuno bod yn Swyddogion Monitro?

11. Pwerau Cosbi Panel Dyfarnu Cymru:
Mae'r adolygiad hwn yn gyfle i ailystyried pwerau cosbi Panel Dyfarnu Cymru, a Phwyllgorau Safonau, pan ganfyddir fod y Cod wedi cael ei dorri. Efallai y byddai ystod ehangach o gosbau wedi eu teilwra yn ddefnyddiol. Er enghraifft, efallai mai'r gosb yw gwahardd dros dro am gyfnod penodol o amser, ond ni fyddai hynny'n cael ei weithredu os yw'r aelod yn cyflwyno ymddiheuriad ysgrifenedig o fewn cyfnod penodol o amser; neu, bod yr aelod yn cwblhau hyfforddiant penodol o fewn cyfnod penodol o amser. Byddai hyn wedyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng (A) "cosbi" achos o dorri'r Cod a (B) y ffaith nad oes gan etholwyr gynrychiolaeth tra bod eu

10. Monitoring Officers:

(a) Handbook:
The Monitoring Officer's handbook needs updating.

(b) Training:
There is currently no national programme of training in Wales for future Monitoring Officers. That provided in England is no longer appropriate owing to divergent legislation. It is felt that this is important to ensure the advice provided to Standards Committees, elected members, community councillors etc., is correct and current and that there is adequate succession planning. This is essential so as to ensure that the Ethical Framework operates effectively.

As part of this, perhaps consideration should be given to a formal qualification for governance solicitors wishing to be Monitoring Officers?

11. Adjudication Panel for Wales' Sanction Powers:
This review is an opportunity to review the sanction powers of the Adjudication Panel for Wales, and Standards Committee, when there is a finding of a breach of the Code. A wider range of tailored sanctions might be useful. For instance, perhaps the sanction is that of suspension for a specified period of time but this will not be implemented if the member provides a written apology within a specified time; or, that the member completes particular training within a specific time. This would then ensure a balance between (A) "punishing" a breach of the Code and (B) the fact that electors are without

haelod wedi cael ei wahardd dros dro.

representation when their member is suspended.

Gobeithir y bydd y llythyr hwn yn rhoi syniad i chi o’r materion sy’n bwysig i’r Pwyllgor Safonau yma ar Ynys Môn ac rydym yn edrych ymlaen at y broses ymgynghori a fydd yn dilyn eich adroddiad cychwynnol i Lywodraeth Cymru.

It is hoped that this letter will provide you with an indication of the matters that are important to the Standards Committee here in Ynys Môn and we look forward to the consultation process that will follow your initial report to Welsh Government.

Llawer o ddiolch

Many thanks

Yn gywir

Yours sincerely,

*John R Jones*

John R Jones
Cadeirydd – Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn
Chair – The Isle of Anglesey’s Standards Committee

Cymraeg
Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

This page is intentionally left blank

**Rhaglen Waith Ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Safonau 2022/23**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor llawn | Pwyllgor i ddechrau ystyried yr Adroddiad Blynyddol nesaf a dechrau gweithio arno cyn eu cyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin, 2022. Rhannu'r adroddiad blynyddol (ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Cyngor) gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)? | Adroddiad drafft wedi cael ei ystyried yn ystod y cyfarfod anffurfiol ar 28/3/2022. Gwaith ar y gweill ar gyfer ei gyflwyno yn y cyfarfod ar 28/6/2022. |
| 2 | Adolygu'r Protocol Datrys yn Lleol | Diwygiwyd ym mis Mawrth 2022 - efallai y bydd angen adolygiad pellach yn dilyn trafodaethau gydag arweinwyr grŵp. Adroddiad o achosion anhysbys a gafodd eu datrys o dan brosesau datrys yn lleol i OGCC? | Wedi'i ddiwygio ym mis Mawrth 2022 – angen gwaith pellach. OGCC wedi cyhoeddi 'model' o brotocol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. |
| 3 | Cynnig a Darparu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau gwleidyddol. Angen penderfynu:<br>• Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant<br>• Cyfranogiad aelodau'r pwyllgor safonau<br>• Cynnwys uwch swyddogion? | Angen trafod gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r gwasanaethau democrataidd. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud ar ddechrau pob gweinyddiaeth ac o fewn 6 mis i'r etholiadau a rhaid eu hadolygu'n flynyddol o leiaf. | Wedi trafod gydag Adnoddau Dynol. Wedi gwneud ymholiadau gyda CLlLC ynghylch unrhyw hyfforddiant pwrpasol sydd ar gael. |
| 4 | Cyfathrebu gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol | Proses adrodd ffurfiol neu fwy anffurfiol ar gyfer arweinwyr?<br>Amlder yr adroddiadau gan arweinwyr grŵp?<br>Trefnu cyfarfodydd yn gyfnodol i adolygu ymddygiad? | Wedi cyfarfod ar 8/3/21 a 27/5/21 |
| 5 | Ymyrryd/hysbysu yn achos cwynion lefel isel, rhai o fewn grwpiau heb eu hadrodd i OGCC. | Angen gweld ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Penn. Rhaid i unrhyw adroddiadau fod yn anhysbys. | Wedi cyfarfod ar 8/3/21 a 27/5/21 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | Cyfarfodydd | Cyfarfod ffurfiol diwethaf 15/12/2021<br><br>Yn y cyfarfodydd anffurfiol ystyriwyd:<br>• ymgynghoriad LlC ar y canllawiau statudol drafft ar safonau ymddygiad<br>• adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor i'r Cyngor llawn<br>• rhaglen waith 22/23<br><br>Cynhelir y cyfarfod ffurfiol nesaf ar 28/6/2022. | Cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol ar 28/3/2022 a 27/4/2022 |
| 7 | Newyddlenni yn dilyn y cyfarfod ffurfiol ar 15.12.2021 | Aelodau i ystyried yr ymatebion dilyn i fyny gan nifer o gynghorau tref a chymuned yn dilyn trafodaeth ar y Newyddlenni yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2021. | |
| 8 | Adrodd am gwynion – Adroddiadau Diweddaru Chwarterol | Angen gweithio ar weithdrefn fel y gall aelodau'r Pwyllgor gadarnhau a bod yn sicr nad ydi achosion sy'n cael eu cyfeirio at OGCC yn dangos unrhyw dueddiadau o ran ymddygiad gwael. Bydd y broses hon yn cynnal a pharchuunrhyw ofynion cyfrinachedd gan OGCC mewn perthynas â'r materion hyn. | |
| 9 | Y Pwyllgor Safonau i Arsylwi gwaith Pwyllgorau Cyhoeddus a'r Cyngor llawn | Yn dilyn y penderfyniad y byddai aelodau'r Pwyllgor yn arsylwi trafodion cyfarfodydd ffurfiol, cyfarfodydd cyhoeddus Pwyllgorau penodol o'r Cyngor (Sgriwtini a Chynllunio) a chyfarfodydd o'r Cyngor llawn, hysbyswyd yr Arweinwyr Grŵp bod y trefniant hwn bellach yn weithredol. | Adroddiad *pro-forma* i'w ddatblygu i sicrhau bod yr holl faterion yn cael eu cofnodi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor sy'n dymuno ymgymryd â'r rôl arsylwi hon roi eu henwau ymlaen fel y gellir llunio amserlen a phennu cyfrifoldebau yn unol â hynny. | |
| 10 | Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau | | Trafodaethau gydag Adnoddau Dynol yn mynd rhagddynt. |
| 11 | Sut i gwyno | Ystyried sut i hyrwyddo sut i wneud cwyn yn erbyn aelodau etholedig unwaith y cytunir ar y broses ar gyfer cwynion 'lefel isel' yn dilyn Adolygiad Penn ac ymateb LlC. | |

This page is intentionally left blank